"Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, CARIAD, A GWIRIONEDD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL I.

1873-4.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.

1874.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1873-03_1

X 2885.4
Y 69
1873-74

CYNNWYSIAD.

Aifft a Chanaan, 33, 60, 85, 151, 203, 226
Amser a'i Bwysigrwydd - - - - - 156
Anerchiad y Golygydd - - - - - 1
Anhawsderau Ysgrythyrol - - - 265
Athrawiaethau Poblogaidd - - - - 91
Awstin, ei feddwl am Dduw - - - 238

Barddoniaeth, 24, 32, 48, 72, 96, 120, 144, 166, 192, 216, 240, 264, 284
Beddau - - - - - - - - - - 139
Beibl a Gwyddor - - - - - - - 128
Beth ydym ni yn ddysgu - - - - - 252
Bywyd Trag'wyddol - - - - - - 217

Cadarn Sail Duw - - - - - - - 73
Cadwedigaeth - - - - - - - - 224
Cariad Cristnogol - - - - - - - 183
Cariad a Rhagluniaeth Duw - - - 197
Calfiniaeth ac Arminiaeth- - - - - 155
Camddarluniadau o Undodiaeth- -
Cofiant Syr John Bowring - - - - 9
Cofiant Horace Greeley - - - - 89
Credu a Phroffesu- - - - - - - 49
Crefyddau Ethnig - - 25, 80, 110, 128
Crefydd Rydd yn America - - - - 101
Crefydd a Duwinyddiaeth - - - - 258
Crefydd, Tybiau enwogion am, - - 256
Cyflafareddiad rhwng Teyrnasoedd 29
Cyflwr Peryglus - - - - - - - 257
Cynildeb - - - - - - - - - - 97

Darn Undodaidd - - - - 13, 35, 57, 130
Darnau Byrion, 46, 71, 95, 143, 166, 189, 215, 261, 282
Dechreu Blwyddyn - - - - - - 248
Diafol - - - - - - - - - - 173
Dinasoedd Hynafol- - - - - - - 211
Duw, Ei gariad a'i Ragluniaeth - - 197
Duwinyddiaeth a Chrefydd - - - - 258
Dyfalbarhad - - - - - - - - 104
Dyferyn Du - - - - - - - - - 175
Dystawrwydd yr Ysgrythyrau- - - 193
Dy winllan dy hun - - - - - - 280

Edrych i fyny - - - - - - - - 139
Enllib - - - - - - - - - - - 184
Esboniadau - - - 19, 47, 115, 213, 258

Ffermwyr, daliwch sylw - - - - 277
Ffordd i gysgu yn dda - - - - - 159
Ffydd yn Nghrist - - - - - - - 135

Glan y Mor - - - - - - - - - 115
Gellionen - - - - - - - - - 106
Gohebiaethau - - -22, 71, 141, 166, 210
Gwleidiadaeth - - 15, 44, 92, 116, 163
Grymialydd, Llythyr, - - - - - - 65
Gweddi y Diacon - - - - - - - - 154

Haelioni yn ei berthynas â'r Weinidogaeth - - - - - - - - - - 160
Hanesion 24, 119, 141, 164, 189, 215, 262, 283
Holiedydd - Yr, 70, 119, 165, 214, 239
Hydref - - - - - - - - - - -

Joan D'Arc - - - - - - - - - 183

Llyfr Corn - - - - - - - - - 68

Marwgofion, 20, 46, 69, 94, 117, 140, 164, 188, 212, 239, 262, 283
Merthyron, Dalen allan o Hanes y, - 230
Mill, John Stuart - - - - - - - 268
Myfi yw y Drws - - - - - - - 134

Newyn yr India - - - - - - - 278
Ni chaiff hi byth dd'od yn ol - - - 254
O'r Tafarndy i'r Lloerigdy - - - - 278

Paul - - - - - - - - - - - 5, 53
Paray le Monial- - - - - - - - 210
Pelicanod yr Aifft - - - - - - 181
Pleidlais y Member - - - - - - 286
Pregeth Effeithiol - - - - - - 178
Pregethwr Methodistaidd - - - - 17
Priodasau - - - - - - - - 45, 189
Profwch bob peth - - - - - - - 133
Rhagom - - - - - - - - - - 169
Rheolau Ymddygiad - - - - - - 41

Sylwadau ar y Darn Undodaidd - -
Tafod Enllib - - - - - - - - - 184
Temlwyr Da- - - - - - - - - 77
Trysorfa'r Gorthrymedigion - - - - 12

Undeb Efengylaidd, Yr, - - - - - 235
Undodiaid, Cefnogaeth iddynt, - - 241
Undodaidd, Ystyr a dylanwad y Symmudiad - - - - - - - - - - 62
Union in Diversity - - - - - 43, 208

Y Wers Annysgwyliadwy - - - - 232
Ymchwydd yr Iorddonen (Pregeth) - 145
Ysbryd yr Efengyl ac Ysbryd Calfiniaeth - - - - - - - - - - 206
Ysgrythyrau, Anhawsderau ynddynt, 121, 265
Ysgol Sul - - - - - - - - - 47,210
Y newyn yn India - - - - - - - 278

2384 6

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1873. [RHIF 1.

Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

ANERCHIAD.

GYFEILLION HOFF,

Y mae teimlad cyffredin yn ein plith, na ddylem adael i'r *Ymofynydd* i farw. Y mae yn rhywfodd wedi dyfod yn un o angenion ein bywyd. Wedi bod yn ymwelydd â rhai o honom am ryw 25ain mlynedd, teimlwn y byddai ei golli rywbeth yn gyffelyb i golli cyfaill anwyl. Gwir ei fod lawer tro wedi bod dan gwmmwl, a llawer tro wedi cario yn y blaen ei waith yn y byd dan anhawsderau ; ond serch i'w nerth felly lesghau ar y ffordd ambell dro, y mae ei ymweliad o hyd wedi derbyn cyflawn roesaw. Unwaith etto y mae yn ymgodi megys o'i lwch, a gobeithiwn y bydd i'w gyfeillion ymfyddino o'i amgylch, fel ag i roddi iddo nerth a chalondid. Gorfuwyd ar ein cyfaill Mr. Evans i roddi i fyny yr olygiaeth, o herwydd ei fod yn teimlo fod y gwaith a ofynai oddiwrtho mewn cyssylltiad â dyledswyddau pwysig ereill ei swydd, fel athraw a gweinidog, yn fwy nâg a allasai ei gyflawni heb niweidio ei iechyd, a gwneuthur annghyfiawnder â'i hun, yn gystal â'i deulu. Y mae felly wedi syrthio i'n rhan i, trwy daer gymhelliad cyfeillion anwyl i gymmeryd at yr olygiaeth am ryw dymor, o leiaf. Y mae genym addewid yr hen olygydd am bob cynnorthwy a allo efe ei roddi, yn gystal ag addewid cyfeillion da ereill, fel ag i wneuthur ein gorchwyl mor ysgafn ag sy' ddichonadwy. Yn wir, heb yr addewidion hyn, nis gallem am foment feddwl am ymgymmeryd â'r gwaith. Gyda'r addewidion, yr ydym yn gobeithio bod o ryw wasanaeth dros ychydig bach yn hwy i'n hoes a'n cenedlaeth. Fel y mae yn hysbys i'r rhan amlaf o honoch, y mae ein hiechyd wedi bod yn ganolig er ys llawer dydd bellach,—mor ganolig el yr ydym wedi ein gorfodi i roddi i fyny bob gwaith. Dan yr am-

gylchiadau hyn, rhaid i'r *Ymofynydd* fod i ni, nid yn waith, ond yn ddifyrwch, yn *amusement*, yn osodiad ar y neilldu o'r *muses*, yn help i ni yn ein hymdrech i gasglu nerth, a sicrhau iechyd adnewyddol.

Tuag at hyrwyddo ein hymdrechion ac esmwythâu ein baich, gall ein gohebwyr wneuthur llawer iawn. Cofier mai mewn amrywiaeth ysgrifenwyr yn unig y gellir dysgwyl amlrywiaeth dawn, ac nas dichon un ysgrifell, nad cystal y byddo, gynnyrchu dim ond ysgrifau unrywiol. Nis gall yr ysgall gynnyrchu ffigys, nis gall ceirch gynnyrchu gwenith. Gan yr amryw ddynion y ceir amrywiaeth o ddoniau. Yr ydym yn dymuno gosod cynnifer ag a allwn, gan hyny, dan deyrnged i'r *Ymofynydd*; a gobeithiwn na bydd neb o'n gweinidogion yn enwedig, yn ol o'n cynnorthwyo, a'n helpio i wneuthur yr *Ymofynydd* mor deilwng ag erioed o gymmeradwyaeth y cyhoedd. Ein dymuniad cyntaf ar ran ein *gohebwyr* yw, helpiwch ni; yr ail, helpiwch ni yn brydlawn ac yn rheolaidd. Y mae eisiau yr ysgrifau mewn llaw mor gynted ag y byddo yn bossibl, fel y gellir eu *darllen, eu dewis, a'u trefnu*, ac y gallom weled yn gynnar yn y mis yn mha le yr ydym yn sefyll gyda'n gwaith. Ein dymuniad ar ran ein *darllenwyr* yw, ar iddynt wneuthur eu goreu i helaethu ei gylchrediad. Mae cylch ei dreigl yn angenrheidiol yn fach, am fod yr enwad yn fach. Y mae gofyn mwy arnom, am hyny, i fod yn ffyddlawn ac yn unfrydol. Edrychedd pob un o'i amgylch a all efe ddim cael un derbyniwr newydd iddo. Cymhellwch ef i sylw eich cyfeillion, ac edrychwch oddiamgylch a ellwch ddim agor drws ac ennill derbyniad iddo mewn cymmydogaethau newyddion. Trwy ffyddlondeb ac unfrydolrwydd felly, gallwn gadw ein cyhoeddiad ar ei draed. Nid oes yr un cyhoeddiad arall fel yr eiddom ni, yn rhydd, yn berffaith rydd; ac os gadawn hwn i syrthio, beth ddywedir am danom? Bydd llawenydd, yn ddiau, yn Gath ac yn Ascalon. Heblaw ei fod yn rhydd, y mae hefyd yn rhâd—mor râd a chyhoeddiadau ereill ag ydynt mewn meddiant o feusydd llawer ëangach i'w cylchrediad. Ac yn mhellach, yr ydym yn gobeithio y bydd cystal o ran sylwedd a neb un o honynt, ac yn fwy at chwaeth ei ddarllenwyr yn gyffredinol. Yn drydydd, yr ydym yn dymuno ar ein rhan *ein hunain* i roddi boddlonrwydd cyffredinol. Nid ydym yn dysgwyl am foment y gallwn ni foddio pawb. Dichon na fu golygydd erioed a allodd wneuthur hyny, llawer llai y gallwn ni, yn enwedig yn awr wrth gychwyn, gydag iechyd llesg, ac heb ddim profiad. Ond hyn yr ydym yn ei addaw, ein goreu—ein goreu dan yr amgylchiadau. Dysgwyliwn i bawb gydymddwyn â ni dros ychydig. Bydd y rhifynau cyntaf, ond odid, yn agored i rai diffygion y gallwn eu hysgoi gyda phrofiad helaethach mewn rhifynau dyfodol. Hynyna ar hynyna.

Yr ydym yn credu fod cymmaint o angen yr *Ymofynydd* yn awr ag y bu erioed, a gobeithiwn fod maes helaeth o ddefnyddioldeb o'i flaen. Gwyddom fod gwasgfa yr amser yn fawr yn ei erbyn yn bresenol; ond dysgwyliwn fod amser gwell ar wawrio. Amcanwn o hyd at wneuthur ein darllenwyr yn hysbys o brif ddygwyddiadau y byd crefyddol. Credwn na bu amser erioed pan oedd y byd crefyddol yn mhob man mewn mwy o ferw. Y mae rhyw ddyhead cyffredinol yn eneidiau

dynion am foddlonrwydd mewn perthynas i bynciau mawrion crefydd. Y mae angorau yr hen gredoau yn ymryddhau yn mhob cyfeiriad—muriau'r Babaeth yn crynu hyd ei seiliau—rhwymau Calfiniaeth yn ymddattod, a Phrotestaniaeth yn ymestyn at fod yn Brotestaniaeth mewn gwirionedd, ac nid mewn enw yn unig. Ystyriwn wir Brotestaniaeth yn gyfystyr â pherffaith ryddid,—rhyddid meddwl, barn, a llafar. Nid yw Protestaniaeth hanesiol ond ffug Brotestaniaeth; darostyngiad ydyw dan iau awdurdod; nid yw ond y Babaeth drosodd drachefn, a'r anffaeledigrwydd wedi ei symmud oddiwrth berson at lyfr. Os rhaid aberthu rheswm, gwell ei aberthu i berson byw nag i lyfr marw. Gwir fod cymmaint o son am Galfin ag a fu erioed, ond y mae Calfiniaeth Calfin yn mron cael ei rifo yn mhlith y pethau a fu. Fel hyn y dywed Beecher* (y pregethwr mwyaf, o bossibl, a welodd y byd erioed):—"Yr wyf yn ystyried fy hun yn Galfin, fel y gwyddoch; ac fel hyn: yr wyf yn credu yr hyn a gredasai John Calfin pe buasai yn byw yn fy amser i, ac yn gweled pethau fel yr wyf fi yn eu gweled. Fy nymuniad cyntaf yw, gwybod beth sydd wir; ac yna yr wyf yn falch iawn os bydd John Calfin yn cyduno â mi; ond os na fydd yn cyduno a mi, gwaethaf i gyd iddo ef! Tra yr wyf yn derbyn y gwaith a wnaeth Duw trwyddo yn esponiad a chyfundrefniad gwirionedd,—a bydd genyf lawer i'w ddywedyd cyn terfynu yn nghylch Calfiniaeth, ac yn ffafr Calfiniaeth, mewn cyssylltiad â'i hathrawiaethau a'i gwaith hanesyddol,—etto, ymddengys i mi fod genyf yr un Arglwydd Iesu Grist ag oedd gan John Calfin, yr un Paul, yr un Ioan, ac nad oes dim yn fy rhwystro yn un modd i edrych i mewn yn gywir i'w calonau, a ffurfio fy meddylddrych fy hun o'r hyn oeddynt, a'r modd a deimlent, megys ag y gwnaeth ef, gyda'r fantais ychwanegol fod genyf oleuni dadblygiad cannoedd o flynyddoedd o'r Eglwys Gristionogol, nad oedd ganddo ef, oblegyd ffurfiodd efe ei gyfundrefn o dan *drippings* yr hen offeiriadaeth Rufeinig. Yn ychwanegol i hyn, yr oedd gan John Calfin gyfran annghyfartal o ddeall, ac heb hanner ei gyfran o galon." Ni wyr yr oes bresenol nemawr i ddim am yr hen Galfiniaeth; y mae ysbryd mwy mwyn a llariaidd, mwy caredig, *charitable*, yn raddol yn ymdaenu dros yr oes hon. Cara dynion edrych ar Dduw yn fwy fel Tad nâg yr arferent wneuthur; a'r canlyniad naturiol yw, fod yr athrawiaeth o gosp trag'wyddol yn dyfod yn llai poblogaidd, ac athrawiaeth adferiad cyffredinol yn ymledu yn yr eglwysi.

Y mae yr Eglwys Sefydledig, gyda'i *High Church*, a'i *Low Church*, ei *Broad Church*, a'i *No Church*, mewn cyffro enbyd. Fel Eglwys Sefydledig, y mae, yn ddiau, mewn perygl mawr—mewn perygl yn herwydd amrafaelion mewnol, yn gystal ag ymosodiadau allanol. Nid ychydig a ddaroganant fod amser ei milwriaeth yn ei chyflwr presenol yn mron ar ben. Nid oes fawr arwydd y gwna lwyddo yn un o'i hymdrechion i geisio ymgyfaddasu at chwaeth a chyflwr newydd yr oes hon. Y mae y gredo a ffug-briodoler i Athanasius yn achos cynhwrf nid bychan. Cawn ddosparth lluosog yn yr Eglwys am osod

* Lectures on Preaching, p. 17.

y gredo o'r neilldu, fel y dymunai yr hen Archesgob Tillotson gynt, pan y dywedodd :—"I wish we were well rid of it." Ond yn y llyfr y mae etto yn aros, ac yno yr erys etto am ryw dymor—i orfodi rhai, ac i roddi cyfleusdra i bawb offeiriaid i ddywedyd am y rhai a annghytunant â hwy,—diamheu y collir hwynt yn dragywydd. "*Quos Deus vult perdere, prius dementat.*"

Mewn cyfeiriad arall, y mae arwyddion fod ysbryd yr oes yn gwella; y mae mwy o barodrwydd i wneuthur cyfiawnder rhwng enwad ag enwad; y mae rhagfarn yn lleihau—canolfur y gwahaniaeth yn cael ei ostwng, fel y mae mwy o siglo dwylaw rhwng y gwahanol bleidiau. Y mae mwy o barodrwydd hefyd i wneuthur cyfiawnder â chrefyddau y byd pellenig. Dywediad cyffredin yw, nad yw y crefyddau ethnig erioed wedi cael chwareu teg ar law Cristionogion. Y mae dynion yn dyfod yn raddol i gydnabod y gall fod daioni tuallan i'w cyffiniau eu hunain. Nid oes dim amser maith (cofia rhai o'r hen bobl am dano) er pan yr oedd plwyfi cyffiniol mewn gelyniaeth parhaus—pan oedd gwahanol wledydd yn cael eu hystyried yn elynion naturiol i'w gilydd. Diffyg adnabyddiaeth, diffyg gwybodaeth, rhagfarn, oedd hyn. Y mae ein sefyllfa ynysol yn anfantais i ni mewn rhai ystyriaethau, ac yn gryn rwystr i ni i ddyfod i adnabyddiaeth o'r byd, ac i feddiant o'r *French polish* a elwir boneddigeiddrwydd. Y mae yr anwybodaeth yma yn anocheladwy yn crebachu yr enaid, ac yn ei dueddu i gyfyngu pob rinwedd a daioni i'w wlad ei hun, ei bobl ei hun, ei sect ei hun, a'i dŷ ei hun. Ni ddylai Undodwr, yn anad neb, fod yn gul ac yn rhagfarnllyd. Gan nad yw yn credu fod nefoedd Duw mor gul â chredo dyn, nid oes dim yn ei luddias i gydnabod daioni yn mhob plaid, a derbyn gwirionedd o ba gyfeiriad bynag y delo. Byddwn gydweithwyr â phleidiau eraill yn y winllan fawr, a'n holl ymdrech i gynnorthwyo, a nerthu, a goleuo y naill y llall. Byddwn barod i dderbyn yn gystal â chyfranu addysg. Esgynwn dwr ein dysgwylfaoedd, ac edrychwn i feusydd ein brodyr, a meusydd mawrion y byd, a oes yno ddim rywbeth a ddichon fod o werth i ni. Ein Tad ni yw Duw, a Thad pawb, pob llwyth ac iaith a chenedl, ac nid yw yn debyg o fod wedi cyfyngu ei gariad a'i ddaioni i un genedl ac i un wlad; ond megys y mae wedi rhoddi goleuni ei haul, a gwlaw ei nefoedd, felly hefyd y mae wedi rhoddi o ffrwyth ei ysbryd i bawb yn ol eu hangenion, ac yn ol eu gallu i dderbyn. Gwir fod gwahaniaeth rhwng seren a seren—y naill yn ffynnonell mwy o oleuni, y llall lai; ond oll yn ffynnonau yr unrhyw oleuni.

"Plant ydym oll
I'r un Tad mawr, nad yn mha wlad
Y bwriodd ei Ragluniaeth hadau byw.
Y Tad a wel yr oll—Efe'r y'm ynddo'n bywyd
A symmud, cyfiawn Farnwr pawb—un wedd
Yr edrych ar bob llwyth a lliw ac iaith."

Gwelwn fod ein maes yn ymeangu; ond rhaid ymattal. Mae'n addawedig genym erthyglau ar y Crefyddau Ethnig, Hanes Prif Sylfaenwyr Crefyddau'r Byd, Zoroaster, Confucius, &c. Credwn y byddant yn ddyddorol ac yn adeiladol iawn. O leiaf, triniant bethau

ydynt newydd i'r rhan amlaf o'n darllenwyr. Nis gwyddom am ddim yn y Gymraeg yn dyfod yn agos i'r pwnc, oddieithr un erthygl alluog gan Ioan Pedr, yn y *Beirniad*, ar Grefydd yr Aryaid. Dysgwyliwn, hefyd, yn ystod y flwyddyn, erthyglau ar Hanes Taith i'r Aifft a Chanaan, Yr Allor Gartref, Cofnodion Eglwysig, &c.

Egwyddor broffesedig yr *Ymofynydd* er y cychwyn yw: Rhydd i bob meddwl ei farn, &c.,—Rhyddid, Gwirionedd, Cariad. Ceisiwn gadw at ysbryd yr egwyddor, gan wneuthur pobpeth gyda phwyll a brawdgarwch. Bydd yr *Ymofynydd*, wrth gwrs, yn enwadol yn yr ystyr o fod yn gyfrwng rhwng Undodiaid a'u gilydd, a rhyngddynt a'r cyhoedd; ond gobeithiwn na fydd dim ynddo yn gul, yn sectol. Ceisiwn at ei wneuthur yn ëang, a'i duedd i ëangu meddwl ac ysbryd a gwybodaeth ei ddarllenwyr. Gyda dymuniad iddo fod yn deilwng o bob cefnogaeth a phob groesaw, y gorphwyswn yn bresenol.

Yr eiddoch, &c.,

Y GOLYGYDD.

Chwefror 8, 1873.

PAUL.

Er mai Paul oedd yr olaf i'w alw i fod yn Apostol, etto mae'n sefyll y blaenaf yn y rhifrestr Apostolaidd; ac fel Apostol y Cenedloedd, y mae yn naturiol i ni, Gristionogion Cenedlig, i deimlo mwy o ddyddordeb yn ei hanes, ei deithi, a'i ysgrifeniadau, nag yn eiddo un o'r Apostolion eraill. Yn yr erthygl hon, ac efallai mewn un neu ddwy i ganlyn, ymdrechaf osod o flaen darllenwyr yr *Ymofynydd* grynodeb o'r prif bethau, fel y maent yn ymddangos i mi, a hynodent Paul fel Apostol ac ysgrifenwr.

Enw cyntaf yr Apostol, neu yr enw wrth ba un yr adnabyddid ef cyn ei droedigaeth, oedd Saul. Ystyr y gair yn yr Hebraeg yw *dymunwyd*, neu *ceisiwyd*. Tybia rhai fod ei rieni wedi bod am rai blynyddau yn briod heb argoel y genid iddynt blentyn, a phan y ganwyd iddynt y bachgen hwn, iddynt ei alw yn Saul, am y meddylient mai mewn atebiad i'w gweddiau y rhoddodd Duw iddynt eu cyntaf-anedig. Tybia rhai drachefn i'w rieni ei alw yn Saul, oherwydd mai dyna beth oedd enw brenhin cyntaf Israel, yr hwn hefyd oedd o lwyth Benjamin, a'i goffadwriaeth yn para mewn parch mawr gan y genedl. Beth bynag oedd y rheswm dros roddi iddo yr enw Saul, nis gellir penderfynu hyn yn awr, ac nid ydyw o un pwys ychwaith. Fel yr oedd yn arferiad cyffredin gan yr Iuddewon, yn neillduol y rhai a drigent yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, i newid eu henwau, felly Saul a gymmerodd iddo ei hun yr enw Rhufeinig Paul wedi ei droedigaeth i fod yn Gristion. Yr oedd yn enedigol o Tarsus, prif ddinas Cilicia. Y ddinas "nid anenwog hon" oedd a'i hynafiaeth yn mhellach yn ol yn y mynediant, nag yr oedd hanes coeliadwy yn gallu cyrhaedd. Cymmered y darllenydd y *Map* yn ei law, ac yna caiff weled fod ei sefyllfa yn Asia Leiaf, yn agos i gongl Ogledd-ddwyreiniol y Môr Canoldir, ar y ffordd fawr, mal pe byddai

o Groeg i Persia, neu o Rufain i Syria. Yn amser y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, safai Tarsus yn uchel o ran ei hysgolion, neu ei chyfleusderau addysg, yn ogyfuwch braidd ag Athen neu Alexandria. Ar gyfrif hyn, dywedid mai trigolion Tarsus oeddynt y mwyaf dysgedig trwy holl Asia. Yr oedd ei masnach yn flodeuog, a'i phobl mewn canlyniad yn dra chyfoethog. Yr oedd iddi yr anrhydedd o fod wedi codi i fyny lawer o ddynion o ddysg, ac o'r tu arall yr anghlod o fod wedi suddo yn ddwfn mewn gloddest a balchder, a'u canlyniadau. Mewn trefydd mawrion, masnachol, a chyfoethog, y mae fynychaf, os nid bob amser, fwy o wybodaeth ac annuwioldeb mewn cyffyrddiad â'u gilydd, nag a geir yn y wlad ac mewn pentrefydd bychain ac annghyhoedd. Wrth ddywedyd hyn, nid wyf yn golygu fod gwybodaeth yn meithrin annuwioldeb, ond yn unig yn crybwyll y ffaith, fod y ddau mewn cyflawnder o honynt i'w cael pa un bynag ai mewn cydfod neu anghydfod yn ein trefydd mawrion. Dywedir i Tarsus yn amser y rhyfel cartrefol, gymmeryd plaid Julius Cæsar, i Antony ar ol hyny ei gwneuthur yn ddinas rydd, ac yn olaf i Augustus ddiddymu ei threthi. Dywed rhai o'r ochr arall nad oedd Tarsus yn meddu breintiau dinasyddiaeth* Rufeinig; ond hyn sydd sicr, fod i'r ddinas freintiau uchel, ac nad oes genym ni ddigon o wybodaeth o'r berthynas a fodola rhwng y dalaeth a'r Brif-ddinas, sef Rhufain, i brofi fod ei breintiau yn fyr o ddinasyddiaeth. Gallasai dinas gyfan neu dalaeth gael yr anrhydedd hwn, a gallasai pawb o'r trigolion ei etifeddu fel brodorion. Dywedir yn bendant (Actau xxii. 28) i Paul gael ei eni yn ddinasydd Rufeinig; ond ganed Paul yn Tarsus, ac felly gellir casglu fod y ddinas yn freiniol, er yn wir y gallasai Paul gael breintiau dinasyddiaeth Rufeinig fel etifeddiaeth, oddiwrth un o'i hynafiaid, yr hwn oedd wedi ennill dinasyddiaeth iddo ei hun, ar gyfrif rhyw wasanaeth oedd wedi gyflawnu, neu ynte wedi ei phrynu.

Ganed Saul yn y ddinas uchod, ac yn debyg yn mhen ychydig flynyddau ar ol Crist. Yr ydys yn casglu hyn, oddiwrth y ffaith ei fod yn cael ei alw yn ddyn ieuanc yn amser merthyriad Stephan yn y flwyddyn A.D. 37 *(Kuinoel's Prolegomena)*, ac yn galw ei hun Paul yr hynafgwr yn ei Lythyr at Philemon, ysgrifenedig oddeutu y flwyddyn A.D. 62. A chaniatau ychydig amcaniaeth, dyweder i Saul gael ei eni yn y flwyddyn A.D. 7, yna yr oedd yn 30ain oed pan osodwyd Stephan i farwolaeth, ac yn 55ain pan yn ysgrifenu at Philemon o Rufain. Gwna rhai ef yn ieuangach o wyth neu naw mlynedd, tra y myn ereill ei fod yn henach.

Ni rydd ysgrifenwyr y Testament Newydd i ni fawr o hanes rhieni na pherthynasau Saul. Ymddengys oddiwrth Rhuf. xi. 1, a Phil. iii. 5, fod ei dad yn Iuddew, ac o lwyth Benjamin, ac oddiwrth Actau xxiii. 6 ei fod hefyd yn Pharisead. Rhoddir ni ar ddeall yn mhellach fod ganddo ddinas-fraint fel Rhufeiniad, ond pa fodd y cafodd y cyfryw ni ddywedir yn bendant,—pa un ai ar gyfrif ei wasanaeth yn un

* Yr oedd breintiau dinasyddiaeth Rufeinig yn lluosog a phwysig; un o ba rai oedd na fyddai yr un *cwrt* neu lys, yn un man dan lywodraeth Rhufain hawl i guro Rhufeiniwr â gwiail, neu ei osod i farwolaeth. Hon yw y fraint mae Paul yn benaf yn ei hawlio fel dinesydd, gan *appelio* at Cæsar.

o fyddinoedd y Rhufeiniaid, ai ynte yn etifeddiaeth oddiwrth un o'i hynafiaid. Yr oedd gan Paul hefyd chwaer, mab yr hon, sef ei nai, a roddodd wybodaeth brydlawn iddo fod rhai o'r Iuddewon yn cynllwyn am ei fywyd. Yn ei Lythyr at y Rhufeiniaid xvi. 7 a 11, crybwylla Paul am rai ceraint iddo wrth eu henwau; ond efallai na olygai ddim yn rhagor na'u bod yn Benjaminiaid, neu o lwyth Benjamin, fel ei hun. Oddiwrth yr addysg neu'r dygiad i fyny a gafodd Paul, mae genym le i gasglu fod ei rieni, os nid yn gyfoethog iawn, etto mewn amgylchiadau da. Rhoddai ei dad bob manteision o fewn ei gyrhaedd i Saul, gyda'r amcan i'w godi i fyny yn un o brif ddynion ei genedl. Treuliodd Saul flynyddoedd boreuaf ei oes yn ei ddinas enedigol, yn mha le yn benaf y daeth i wybodaeth o'r iaith Roeg. Nid oes genym hanes iddo gael ei osod i efrydu dan un o athrawon Groegaidd Tarsus, ond iddo ddysgu'r iaith fel iaith gyffredin y lle; na bod ei gydnabyddiaeth âg ysgrifeniadau beirddion a philosophyddion Groegaidd ddim amgen na'r hyn a ellid ddysgwyl oddiwrth Hebrewr dysgedig. Amcan ei dad oedd ei godi i fyny yn Rabbi, ac felly yn y cyfeiriad yma yn fwyaf neillduol y mae i ni edrych am yr addysg a gafodd Paul. Yn ol gofyn y gyfraith, yr ydym yn cael i'w dad enwaedu arno yr wythfed dydd. Yn foreu iawn hefyd, oddeutu deuddeg mlwydd oed, y symmudwyd ef i fyny i Jerusalem, ac y gosodwyd ef dan ofal Gamaliel, yr hwn ei hunan oedd yn Pharisead, "doctor o'r gyfraith, parchedig gan yr holl bobl." Ei dad yn Pharisead, a'i athraw yn mhlith y blaenaf o'r Phariseaid, cymmerwyd pob gofal i ddysgu Saul i fyny yn nghyfraith y tadau, ac yn athrawiaethau yr ysgol Phariseaidd—"yn Hebrewr o'r Hebreaid; yn ol y ddeddf yn Pharisead."

Nid yn unig cafodd Saul y manteision goreu i gyrhaedd dysg, ond gwnaeth hefyd ddefnydd priodol o honynt, yn ol ei dystiolaeth ei hun yn ei lythyr at y Galatiaid, pan y dywed, nid mewn hunan-glodforedd, ond mewn eithaf gostyngeiddrwydd, gan briodoli yr Efengyl a bregethai i ddatguddiad Iesu Grist, "Canys chwi a glywsoch fy ymarweddiad i gynt yn y grefydd Iuddewig, i mi allan o fesur erlid Eglwys Dduw, a'i hanrheithio hi; ac i mi gynnyddu yn y grefydd Iuddewig yn fwy nâ llawer o'm cyfoedion yn fy nghenedl fy hun, gan fod yn fwy awyddus i draddodiadau fy nhadau."

Mewn ychwanegiad at ei wybodaeth o'r gyfraith a'r grefydd Iuddewig, yr oedd hefyd wedi ei ddysgu i fyny yn grefftwr, sef gwneuthurwr pebyll. Y pebyll yma oeddent rai bychain, ysgafn, hawdd eu dwyn o un man i'r llall gan fugeiliaid a thrafaelwyr, wedi eu gwneuthur o liain, lledr, &c. Yr oedd yn arferiad cyffredin yn mhlith yr Iuddewon i ddysgu rhyw gelfyddyd neu gilydd, gan nad beth eu scfyllfaoedd a'u hamgylchiadau mewn bywyd. Mae y cyfryw arferiad yn deilwng o efelychiad yn mhob oes a gwlad. Bu yn dda i Paul lawer gwaith yn ol llaw, pan yn teithio ac yn pregethu, ei fod wedi dysgu ennill ei fara, oblegyd yn aml ychydig dal yr oedd yn gael am ei wasanaeth yn pregethu Crist croeshoeliedig, a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw. Mae'r amser wedi gwella yn fawr oddiar pan y bu Paul yn gweinidogaethu; mae llawer o weinidogion yn awr yn derbyn cyflogau da, yn derbyn eu triugeiniau, eu cannoedd, a'u miloedd o bunau yn y

flwyddyn,—llawer yn wyr bon'ddigion, yn bwyta bara seguryd ar gefn yr efengyl a bregethodd y saer o Nazareth, y *tentmaker* o Tarsus, a'r pysgotwyr tlodion parchedig gynt. Ond hyd yn nôd yn bresenol, bendith fawr i lawer o bregethwyr yw eu bod yn gwybod y ffordd i gadw enaid a chorff wrth eu gilydd heb bwyso ar dyner drugaredd eu cynnulleidfaoedd. Pe yn gorfod byw ar yr hyn a dderbyniant fel cyflogau oddiwrth eu cynnulleidfaoedd, llawer o honynt yn weinion, byddent y drws nesaf i'r *workhouse*. Maent, trwy drugaredd, yn medru ffarmio, cloddio, tynu'r nodwydd, defnyddio'r minawyd, troi pedolau ar yr eingion, cadw ysgol, &c. 'Does dim yn ddiraddiol yn hyn, ond y mae i'r eithaf yn anrhydeddus. Gwell fyddai genyf fi, 'rwy'n credu, pe byddai yn rhaid, i weithio nes chwysu fy enaid allan o'm corff nà chrawcian yn dragwyddol, Sabboth ar ol Sabboth, am ragor o gyflog uwchben dynion sydd eisioes, lawer o honynt, yn cyfranu mwy nà'u gallu, ac ereill sydd à'u calonau yn eu pyrsau. Yr wyf yn credu nad oes dim yn fwy efengylaidd a chymmeradwy gan y Nefoedd Fawr ei hun nà phregethwr tlawd yn gweithio am ei fywoliaeth, ac yn ennill ei grwstyn mewn ffordd onest. Ffon bara Paul, pan fyddai taro, oedd y gelfyddyd o wneuthur pebyll; ond er dylyn ei alwedigaeth, cyflawnai yn fanol holl ofynion yr ysgol Phariseaidd, ac nid oedd ei ddull o fucheddu heb fod yn tynu sylw pobl Jerusalem (Actau xxvi. 4-5). Nis gallasai y sect newydd, oblegyd felly y galwai ef y Cristionogion, lai nà chyffroi meddwl Paul i raddau pell iawn,—yr oeddent nid yn unig yn gwrthod traddodiadau y tadau, ond hefyd yn bygwth dinystr cyflawn ar yr holl gyfundraeth Phariseaidd trwy ddynoethi a chondemnio rhagrith twyllodrus ei chyflawniadau allanol. Felly, yr oedd llabyddio y Cristionogion cyntaf yn waith ag yr oedd Paul yn falch i allu dangos ei gymmeradwyaeth o hono trwy roddi ei bresenoldeb ar yr achlysur. Ei enaid tanllyd, cynddeiriog, a ymhyfrydai mewn erlid y Cristionogion yn Jerusalem, a dywedai fod y fath erchyllwaith yn fater cydwybod ganddo. Nis gwn i beth yn iawn i ddywedyd am gydwybod Paul ar y pen hwn. Yr oedd y ffordd y cafodd ei ddwyn i fyny, yn ddiau, i ryw fesur, yn ei esgusodi; ond yr wyf yn credu fod Paul a phawb ereill yn gyfrifol i Dduw am eu holl ysgelerderau, er efallai ar y pryd yn ddigon cydwybodol yn y cyflawniad o honynt. Mae cydwybod yn gofyn ei chwrteithio a'i goleuo, fel pob cyneddf arall; a'r hwn a esgeulusa wneuthur hyn hyd eithaf ei allu a'i gyfleusderau, sydd yn euog o bechod, ac yn sicr o gael ei gospi. Mae'n wir na wna dyn onest ond yr hyn y mae ei gydwybod yn gymmeradwyo; ond y cwestiwn yw, a ydyw efe wedi gwneuthur ei oreu i ddysgu ei gydwybod i wahaniaethu rhwng y da a'r drwg cyn ei gosod i eistedd ar y fainc farnol i benderfynu pethau? Mae yn beth eithaf possibl fod y gydwybod heddyw yn condemnio'r gydwybod ddoe, fod cydwybod Paul y Cristion yn condemnio cydwybod Saul o Tarsus, yr erlidiwr. Felly Saul yn ei sêl wyllt dros grefydd y tadau, a than arweiniad ei gydwybod dall, yn llawen a dderbyniodd awdurdod oddiwrth yr Arch-Offeiriaid i erlid, a charcharu, a difetha y Cristionogion, yn wyr ac yn wragedd, yn Jerusalem; ac nid yn unig hyn, ond i'w chwilio allan yn y synagogau, a'u gorfodi i gablu

enw yr Iesu; ac yn mhellach fyth, i fyned ar eu hol a'u herlid hyd ddinasoedd dyeithr hefyd. Profodd Saul ei fod yn un o amddiffynwyr mwyaf galluog a selog Iuddewaeth, fel yr anfonwyd ef gan yr Arch-Offeiriaid i Damascus i osod ei droed ar wddf Iesu Grist yn y lle hwnw er ei lethu, os yn ddichonadwy, yn ei fabandod. Dechreuodd Saul ei daith gyda llawenydd mawr, ond bu ryfedd arno cyn cyrhaedd y ddinas.

PAULIAD.

COFIANT SIR JOHN BOWRING.

YR hyn a wna yr hanesyn canlynol yn ddyddorol i Undodiaid, yw y ffaith mai Undodwr oedd y boneddwr hwn. Pleidiodd ein daliadau yn wrol hyd ei awr olaf, a bu farw yn llawn ffydd yn y gwirioneddau ag oedd mor anwyl ganddo drwy ei oes. Nid Undodwr arwynebol ydoedd, ond un gwresog, un a welsid yn wastad yn bresenol yn ein cyfarfodydd blynyddol yn Llundain, a'r rhai chwarterol yn ei gymmydogaeth ei hun, ac ar droion, yn nghymmydogaethau ereill. Ystyriwn hefyd ei sefyllfa mewn cymdeithas. Nid mynych y ceir un o radd cymdeithasol mor uchel yn pleidio golygiadau enwad y siaradir yn ei herbyn yn mhob man. Bydded fod y lluaws cyfoethogion a wyddir fod yn dal ein golygiadau yn dylyn esiampl Sir John, ac yn dysgu gwadu pob peth yn hytrach nà'u ffydd. Ni chafodd ef ei ddiystyru gan y werin neu gan fawrion y wlad am mai Undodwr ydoedd; ac nid wyf yn credu y diystyrir un dyn arall ag sydd yn ddigon gwrol i ddangos beth yw ei gred. Cymmered pawb o Undodiaid claiar Cymru y boneddwr hwn fel esiampl; ac os gwnant ei ddylyn, ni fydd ein tai cyrddau yn hir mor wag ag ydynt yn awr.

Mab ydoedd Sir John i Mr. Charles Bowring, cyndeidiau yr hwn a fuont am lawer o oesoedd yn fasnachwyr gwlan cyfrifol. Ganwyd ef yn Larkbeare, yn agos i Exeter, yn 1792, a bu farw yn 1872. Derbyniodd ei addysg o dan offeiriad o'i sir enedigol, ac yn ieuanc iawn, sef pan yn 14eg oed, cymmerwyd ef o'r ysgol, a gosodwyd ef gan ei dad yn ei alwedigaeth ei hun. Byddai llawer o fechgyn o'r un oedran ag ef yn meddwl fod eu dysgeidiaeth wedi terfynu—eu bod wedi dysgu gymmaint a allasent ddysgu; ond nid oedd John Bowring yn meddwl felly. Ystyriai ei fod wedi cael sylfaen i weithredu arno, a bod y gweddill o'i ddyddiau i gael eu treulio mewn adeiladu. Treuliai ei amser hamddenol mewn astudio ieithoedd dyeithr, y rhai y siaradir ar y Cyfandir, yn nghyda *Natural History* a *Chemistry*. Ychydig, ofnwn, gawsem o'r un oedran ag ef mor ddiwyd, mor benderfynol, ac mor ymdrechgar. Yr amser hwn o'i oes, gwelwn mor wir mae y ddiareb Saesoneg yn dal,—"*The child is father of the man.*" Mae ei ddiwydrwydd boreuol yn dangos beth allem ddysgwyl oddiwrtho wedi cyrhaeddyd oedran gwr. Cyn cyrhaeddyd un-ar-ugain oed, danfonwyd ef fel cynnrychiolydd ei dad i ran ogleddol Yspaen i ymweled à'r personau ymwnelsai ef à hwynt yn ei fasnach. Wedi hyn, aeth i ogledd

Ewrop; bu yn aros am gryn dipyn o amser yn Rwssia, o ba le yr aeth drwy Sweden, Finland, a Germany. Pan ar y teithiau hyn, mabwysiadodd y cynllun doeth o fyw gyda'r brodorion, pa le bynag y cawsai ei hun. Gwnelsai ei hun yn un o honynt hwythau drwy ymgyfarwyddo gymmaint ag a allai a'u harferion, a thrwy ei benderfyniad i ddysgu siarad eu hiaith. Amynedd nid bychan oedd yn ofynol i ddysgu yr ieithoedd yma, o herwydd cawsai yn mhob un o honynt wahaniaethau oddiwrth y lleill, ac felly yr oedd yn rhaid iddo osod allan benderfyniad ac ymdrech cyfartal i'r anhawsderau. Byddai llawer, yn feddianol ar yr un manteision, yn ysgoi y drafferth o ddysgu yr ieithoedd, a mabwysiadu y gwahanol arferion, o herwydd gormodedd y gwaith a'r ymdrech anghenrheidiol; ond nid felly Bowring. Mor ieuanc â hyn, yr oedd llafur wedi d'od yn bleser iddo, yn enwedig pan yr oedd cynnydd meddyliol yn cydfyned â hyny. Y mae yn wybyddus i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr, ei fod wedi rhoi i'r byd ffrwythau ei lafur pan ar y teithiau yma. Oddiwrth yr hyn a sylwodd ac a gasglodd yr amser hwn, cafodd y defnyddiau i ysgrifenu llawer o'r llyfrau a roddodd i'r byd yn ystod ei fywyd. Yr oedd ei lygad craffus a'i feddwl treiddiol yn ddigon o sicrwydd fod eu sylwedd yn dda ac yn werth myfyrio arnynt. I'r teithiau yma yr ydym yn ddyledus am ei "*Specimens of the Russian Poets*," "*Batavian Anthology*," "*Specimens of the Polish Poets*," "*Poetry of the Magyars*." Ar ei daith yn Scandinavia (Norway a Sweden), crynhôdd foddion i wneyd cyfrol o bryddestau Danaidd. Ar wahanol brydiau, cyfieithodd lawer o weithiau barddonol o'r ieithoedd canlynol:—Frisian, Esthonian, Icelandic, Portuguese, Dutch, a llawer o rai ereill. Fel ieithydd, safai yn y rhes flaenaf, ac yn ddiamheu ar y *top*. Gwyddom ei fod heb ei fath. Dywedai yn ddiweddar iawn y gwyddai ddau cant o ieithoedd, ac y gallai siarad cant o honynt. Yn 1866, danfonodd i'r wasg gyfieithiad o farddoniaeth yn iaith yr Hungariaid. Hyd amser, ac ar ol amser ei farwolaeth, gwelsid ei gyfieithiadau yn y gwahanol gyhoeddiadau Seisneg.

Pan yn ddyn canol oed, yr oedd yn gyfaill mynwesol, ac yn hoffwr gwresog o Jeremy Bentham, gweithiau yr hwn y golygodd, a golygiadau yr hwn ar bynciau cymdeithasol a chyfreithiol yr esboniodd yn y "*Westminster Review*." Yn awr, yr ydym yn ei gael mewn golwg newydd. Hyd hyn, yr ydym wedi ei ddangos fel ieithydd; yn awr y cawn ef yn olygydd. Efe oedd golygydd cyntaf y cyhoeddiad hwn; ac am bum' mlynedd, pleidiodd egwyddorion Masnach Rydd hir amser cyn i Cobden a Bright ymddangos yn y rhengau. Yr oedd yn mlaen y gâd. Pleidiodd yn hyf dros Ddiwygiad Seneddol, Rhyddid Pabaidd yn 1829, Rhyddid Crefyddol ac Addysg Wladwriaethol. Yn y flwyddyn 1828, danfonwyd ef gan y llywodraeth i wneyd *reports* ar sefyllfa arianol y wlad hon. Y mae yn awr yn ymddangos fel *public man*. Y mae yn dechreu cael ei ddefnyddio gan ei wlad fel offeryn pwysig a defnyddiol. Llanwodd lawer o swyddi, a chyflawnodd lawer neges ar faterion arianol mewn cyssylltiad â'n gwlad ein hunain, a gwledydd ereill o bwys mawr i ni fel cenedl, os nad o natur a fyddai yn sicr o ennill parch a serch y bobl tuag ato. Yn wir, mewn diwygiadau

cymdeithasol y gwnaeth ei waith goreu, ac y mae ei wasanaeth mawr a phwysig yn y mater hwn yn haeddu idd ei enw gael ei gadw ar gof yn barchus gan drigolion Ysys Prydain. Efe, drwy ddylanwad y Prince Albert, fu yn foddion o gael y darn dau swllt i'r wlad. Bu am hir amser yn pleidio dros hyn cyn i'r Senedd ei ganiatau iddo. Drwy gael y darn hwn fel un o *coins* y wlad, yr oedd Sir John yn gosod sylfaen i'r *Decimal System* ag oedd mor bleidiol drosti.

Bu yn Aelod Seneddol o 1835 hyd 1849 ; a phan yn llanw y swydd yma, cariodd fesur drwy'r Tŷ i ryddhau pobl yr *Isle of Man* o'r caethiwed oeddynt wedi byw ynddo am gymmaint amser. Yn 1854, gwnawd ef yn farwnig ; ac yn yr un flwyddyn, danfonwyd ef i Hong Kong fel llywydd yn lle y Frenines. Ni chariodd bethau yn y blaen yma cystal ag y dymunid. Yn ol y gred gyffredinol, efe sydd i'w feio am y rhyfel Chineaidd. Yn Tachwedd, 1856, erchodd i Llyngeswr (*Admiral*) Seymour i dân-belenu dinas Canton, ac felly dechreuodd y rhyfel â China. Nid wyf yn cymmeryd arnaf fy hun i roddi un opiniwn ar y mater hwn, ac felly, af yn mlaen at beth arall. Rhoddodd Sir John lywyddiaeth Hong Kong i fyny yn 1859, ar ba achlysur y derbyniodd wobr-gyflog. Ar ol ymweled â Siam, dychwelodd i Loegr. Cyflawnodd ei wasanaeth olaf i'w wlad yn 1861, pan y danfonwyd ef i'r Eidal (*Italy*), ar neges masnachol.

Fel y sylwasom yn flaenorol, ni therfynodd ei fywiogrwydd perthynol i ddysgeidiaeth hyd awr ei farwolaeth. Ond oddeutu tair wythnos cyn y dygwyddiad hyn, ysgrifenodd at gyfaill i'w hysbysu ei fod yn gwneyd Casgliad o Hymnau i blant yr Ysgolion Sabbothol. O ! mor ddiwyd ydoedd yr hen wr dysgedig. Cerid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai ef yn bersonol, am ei garedigrwydd a'i barodrwydd i roi cynnorthwy pryd yr oedd yn ei allu. Yr oedd ganddo galon fawr, ac yr oedd yn wastad yn ennill serch pawb. Pleser oedd ymddyddan âg ef, o herwydd yr oedd ei gynefindra â chymmaint o wledydd ac arferion gwahanol yn ei lenwi âg hanesion diderfyn braidd am ddynion a dinasoedd.

Priododd ddwywaith,—yn gyntaf yn 1816, â Maria, merch y diweddar Mr. Samuel Lewin, o Hackney ; yr hon a fu farw yn 1858, yn Hong Kong, oddiwrth y gwenwyn a roddwyd iddi gan rai o'r brodorion. Priododd yr ail waith yn 1860, â Miss Deborah Castle, o Briste, yr hon yw y Lady Bowring presenol. Trwy'r briodas gyntaf, cafodd deulu, o'r hwn y mae tri o'r gwrrywod wedi cyrhaeddyd cryn enwogrwydd.

Nid oedd llafur Sir John heb ei wobrwy. Rhoddwyd iddo lawer arwydd anrhydeddus o barch, fel cydnabyddiaeth o'i alluoedd mawrion a'i ddefnyddioldeb cyffredinol. Yr oedd Ewrop ac Asia am y mwyaf awyddus i ddangos eu parch iddo, drwy wlawio arno nodau anrhydeddus. Dychymmygaf y gwelaf ei wisg wedi ei gorchuddio â *stars* ac *orders*. Yr oedd yn frodor o'r Gymdeithas Freninol (*Royal Society*), ac yn gwisgo *insignia* y "*White Elephant*." Yr oedd yn aelod o gymdeithasau uchel yn Belgium, Yspaen, Awstria, Sweden, a'r Eidal.

Pwy o ddarllenwyr y newyddiaduron Undodaidd yn yr iaith Seisneg, nad yw yn gwybod am Sir John Bowring ? Mynych y darllen-

asom am dano yn siara dyn ein cyfarfodydd—yn siarad yn ffraeth ac yn hyawdl dros ryddid crefydd; ond ni chlywwn ei lais mwy. Y mae wedi ei ddystewi yn y bedd. Er marw o hono, mae ei ysgrifeniadau etto yn siarad, ac ni anghofir ddim o hono ef tra fyddo ei emyn ragorol yn ein llyfrau:—

"In the Cross of Christ I glory," &c.

Yma y gadawaf yr hen wr hyawdl, ac yr wyf ar yr un pryd yn teimlo fy mod yn mhell o fod wedi gwneyd cyfiawnder â'r pwnc. Heddwch i'w lwch.

NEMO.

TRYSORFA'R GORTHRYMEDIGION 1870.

O'R diwedd mae adroddiad wedi dyfod o weithrediadau pwyllgor y Drysorfa uchod. Yr oeddem wedi clywed a gweled rhyw awgrymiadau yn awr ac yn y man, na fuasai fawr neu ddim daioni yn deilliaw i'r dyoddefwyr oddiwrth yr arian a gasglesid. Lled-awgrymid y rhedent i ryw gyfeiriad arall. Ac oddiwrth fod cryn dipyn o amser wedi rhedeg heb i'r tanysgrifwyr glywed dim am danynt, yr oedd y cyfryw a goleddent y syniad yna, yn lled-obeithio ei fod yn wir. Nid oes achos enwi aelodau o ba ddosbarth oedd y rhai hyn. Ond y mae yn hyfrydwch i ddeall oddiwrth yr adroddiad o'm blaen, fod eu dychymmygion, ac efallai eu gobeithion yn hyn, wedi diflanu.

Nid oes achos yn awr i redeg yn ol tua 1870-1, ac i olrhain gweithrediadau rhai *squires* a *pharsoniaid* yn Nghymru, tuag at eu tenantiaid, am feiddio gweithredu oddiar eu hargyhoeddiadau yn yr etholiad cyffredinol diweddaf, gan fod hyny wedi cael ei groniclo yn barod, a bydd ar gof a chadw i'r oesoedd a ddel. Digon ydyw dywedyd iddynt gael dyoddef yn chwerw am arfer yr hawlfraint ag oedd y *state* wedi roddi iddynt. Ond beth i feddwl am ddyoddefiadau y rhai a fethasant ddangos y cyfryw wrolder? Mae lluaws o honynt yn trigfanu ar fryniau ac yn nghymydd Cymru. Nis gellir dywedyd fod llawer iawn o gydymdeimlad yn deilwng i'r rhai hyn, er eu bod, o bossibl, mewn amgylchiadau cyssurus ac annibynol yn y byd, ac o ddawn ymadrodd ysbleny ld, yn siaradwyr glew am hawliau a breintiau dyn, ond yn y *weithred* yn pallu. Dichon fod ganddynt ryw esgusodion yn eu meddyliau dros eu diffygion; a chan nad ydym yn bresenol yn chwennych poeni unrhyw greadur, ni a obeithiwn eu bod yn cael ychydig o ymborth oddiwrth ryw fân bethau felly.

Ond yn ngwyneb y dyoddefiadau rhag-grybwylledig ag y mae y dosparth arall wedi eu teimlo ac yn eu teimlo, yn ddiau, yn barhaus oddiwrth eu hamgylchiadau tymhorol, y mae ganddynt yr hyfrydwch nid yn unig o deimlo y boddlonrwydd cydwybodol hwnw, eu bod wedi cyflawni eu dyledswydd tuag at eu Duw a thuag at y *state*, ac nad yw yn ngallu unrhyw *squire* barfog neu ddifarf eu difreinio o hono; ond hefyd gydymdeimlad eu cyd-ddinasyddion gwir egwyddorol. Nid mewn *gair* mae hyn wedi cael ei arddangos, ond mewn *gweithred*, fel y mae'r 'Adroddiad' sydd yn awr o'm blaen yn tystiolaethu. Casglwyd drwy Gymru, y swm o £3,848 11s. 8c. Talwyd allan £3,771 2s. 1½; o'r hyn yr aeth £3,327 i'r dyoddef-

wyr, ac y mae £77 9s, 6½c. mewn llaw "to defray the expenses of printing and circulating the Report and Lists, auditing the accounts, and to pay other expenses yet unsettled." Dyma waith ragorol, onide? Nid ydym mewn un modd yn meddwl fod y gyfran yna o arian yn gyflawn dâl i'r dyoddefwyr, ond y mae yn ddangosiad o gydymdeimlad dwfn â hwy yn eu hing a'u caledi. Gwnaeth y cynnulleidfaoedd annghydffurfiol gasgliadau ragorol yn gyffredinol; a da genym weled fod y cynnulleidfaoedd Undodaidd wedi gwneuthur cystal, ac yn neillduol yn y "Darn Undodaidd." Mae rhyw *element* o grefyddolder weddol fywiog yna etto, er cymmaint myn rhai led-awgrymu i'r gwrthwyneb.

J. E. G.

"DARN UNDODAIDD SIR ABERTEIFI.

"Yr hyn sydd genym i'w wneyd y tro hwn, yw edrych ar foesoldeb y darn hwn mewn cymhariaeth i ddarnau ereill y sir. Yr ydym yn cofio yn dda, pan oeddym yn blant, ein bod yn clywed rhai yn siarad am y Sosiniaid, fel eu gelwid ganddynt, gyda pharch mawr, am eu bod yn rhai cywir mewn bargenion, er eu bod yn eu hystyried yn gyfeiliornus mewn barn am bethau crefydd. Ac ar hyd ein hoes lawer gwaith wedi hyny, yr ydym wedi clywed rhai yn dyweyd yma a thraw, "Mae yn well genyf ddelio â Sosin nâ neb," gan gyfeirio at fasnachu mewn anifeiliaid ac ŷd yn fwyaf neillduol. O'r ochr arall, yr ydym wedi gweled rhai oedd yn amheu hyn, ac yn rhoddi rhyw bethau gerbron er profi hyny. Wrth reswm, nid ydym i roddi llawer o bwys ar ddywediadau personol fel hyn, y naill ochr na'r llall, gan fod tuedd mewn dynion i farnu am eu gilydd yn ol rhyw un weithred a wneir tuag atynt hwy, ac nid yn ol cymmeriad cyffredinol eu cyd-ddynion. Cyn rhoddi pwys ar bethau fel yma, mae yn angenrheidiol i ymchwiliad manwl gael ei wneyd i ymddygiadau y ddwy ochr, ac i resymau y ddwy dros farnu fel y maent. Ond, a chymmeryd barn gyffredin y wlad yn rheol, gallem feddwl fod llawer o'r hen Undodiaid yn enwog mewn cyfiawnder ymarferol yn eu holl gyssylltiadau. Yr ydym yn clywed llawer o bethau i'r perwyl yn cael eu dyweyd am D. Jenkin Rees, Lloyd Jack, yr hwn y crybwylliasom ei enw o'r blaen. Os byddai dyn tlawd yn gorfod gwerthu buwch, byddai ef yn debyg o roddi mwy nâg a ofynai am dani, er mwyn ei gynnorthwyo yn ei gyfyngder. Ni wnai ddadleu fawr byth wrth brynu a gwerthu,—byddai ei air bron bob amser yn ïe neu nage, a dim ond hyny. Yr oedd ei wybodaeth helaeth hefyd mewn pethau cyffredin gwlad, yn nghyd a'i farn synwyrol, yn ei wneyd yn brif oracl ei ardal; ac oblegyd y pethau hyn, daeth yn un o ddylanwad mawr. Mae pethau tebyg yn cael eu dyweyd am D. Lloyd, Brynllefrith, am yr hwn y crybwyllwyd o'r blaen; a llawer ereill.

Dysgwylir arnom hwyrach i roddi rhyw reswm ám hyn. Mae y rheswm am dano yn ddigon amlwg yn marn grefyddol yr Undodiaid, sef eu barn am allu dyn i ennill cymmeradwyaeth Duw a nefoedd trwy ei weithredoedd ei hun. A chan eu bod yn barnu felly, naturiol oedd iddynt geisio profi eu barn trwy ymddygiadau cyfiawn a da. A chan mai oddiwrth y Calfiniaid y daethant allan yn y dechreu, a bod y rhai hyny yn eu hamgylchynu ar bob tu, yr oeddynt yn teimlo fod yno ryw fath o gystadleuaeth yn bod rhwng tuedd ymarferol barn y ddwy blaid, a bod yn rhaid iddynt wneyd eu goreu er sefydlu cymmeriad da i'r farn newydd. Mae pob person, teulu, neu enwad, wrth roddi fyny ar safle newydd, yn sicr o ymdrechu

dyfod allan yn y wedd oreu arno; felly, wrth reswm, yr oeddynt hwythau. Ac yr ydym yn credu i'r enwogion ddarfu sefydlu yr enwad Undodaidd, ddyfod mor amlwg mewn gweithredoedd da eu hunain, fel y darfu iddynt roddi y cymmeriad hwnw i raddau pell i'w henwad. Ac yr ydym yn credu hefyd, y gallent fod yn well nâ ni, y Methodistiaid, er ys blynyddoedd lawer yn ol, ac efallai hyd yn ddiweddar, gan eu bod lawer henach fel crefyddwyr. Yr oeddynt hwy yn bod yn y ffurf o Bresbyteriaid, Annibynwyr, Bedyddwyr *(Antipædo-Baptists)*, ac Arminiaid, yn mhell cyn i ni gael bodolaeth. Daethant hwy allan fel Undodiaid, wedi eu dysgu mewn crefydd ymarferol, tra y daeth y Methodistiaid allan o anwareidd-dra yr oesoedd. Mae meini fyddo wedi bod mewn tŷ o'r blaen a llai o waith caboli arnynt wrth gael eu symmud i adeilad newydd, nâ meini fyddo yn cael eu tori yn *raw* o'r graig. Ac wedi i'r Methodistiaid gael eu troi o gyfeiliorni eu ffyrdd, yr hyn y cawsent eu dysgu ynddo fwyaf ar ol hyny, oedd yn ffordd iachawdwriaeth—eu dysgu am Grist a'r iachawdwriaeth sydd ynddo ar gyfer pechadur. Y pryd hwnw, etholedigaeth gras, a Christ a phechadur, oedd prif bethau y weinidogaeth. Peth diweddar mewn cymhariaeth yw dysgu crefydd ymarferol fel cyfundrefn, a chafodd llawer o'r enwogion Methodistaidd eu cyhuddo o Arminiaeth wrth ymdrechu gwneyd hyny. Ac wrth ystyried y pethau hyn, nid ydym yn rhyfeddu os oedd yr Undodiaid yn well nâ ni, er ys blynyddoedd yn ol, am foesgarwch mewn bargeinion a llawer o bethau da ereill. Ac oblegyd y rhesymau ydym wedi nodi, nid ydym yn meddwl ei bod yn un diraddiad ar Fethodistiaid y dyddiau presnol i gyfaddef hyny.

Y gofyniad bellach ydyw, a ydynt yn parhau i fod felly? Wrth i ni fod yn onest i'n barn, rhaid i ni ddyweyd ein bod yn credu nad ydynt ar y cyfan un mymryn yn well nag ereill. Nid ydym wedi annghofio y cyngor a gawsom gan lywydd parchus Athrofa Caerfyrddin yn yr *Ymofynydd*, am i ni beidio honi anffaeledigrwydd, ac nid ydym yn ei honi yma. Ond ein rhesymau dros ein barn yw y rhai hyn; (1.) Barn bresenol wedi ei ffurfio oddiar adnabyddiaeth o'r Undodiaid, ac hefyd o enwadau ereill y sir. Yr wyf yn gwybod yr un pryd fod hon yn ddiffygiol, gan nad wyf yn ddigon cydnabyddus â ffeiriau ein gwlad, ac â masnach yn gyffredinol. (2.) Ond dyma yw y farn gyffredin. Yr ydym wedi cael cyfleusdra lawer gwaith i ymddyddan â ffermwyr, masnachwyr, crefftwyr, ac ereill o'r Undodiaid, yn gystal âg o enwadau ereill, ac y maent i gyd, hyd yr ydym yn cofio, yn unol yn eu barn. Efallai ar ddechreu y siarad, y gwneir danod rhai triciau drwg o bob ochr; ond erbyn ystyried yr oll, y casgliad a dynir yw, eu bod yn methu gweled llawer o wahaniaeth. Ceir llawer o rinweddau da yn yr Undodiaid, fel y rhai ydym wedi nodi mewn cyssylltiad â phersonau, a cheir degau o enghreifftiau cyffelyb yn mysg enwadau ereill. Yr un fath yn gymhwys am y beiau; os awn i ddechreu chwilio pwy sydd ddibechod, digon tebyg na cheir fawr all daflu cerryg. Ond y cwestiwn i'w benderfynu yw, pa feiau sydd yn "bechodau parod i amgylchu" yr enwadau? Ceir genym oll i ddywedyd, "mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro;" ond pa bechodau ydynt ein pechodau enwadol—y pechodau y mae *un* enwad yn euog o honynt, a phob enwad arall yn rhydd? A oes pechodau *gwreiddiol* felly yn dal cyssylltiad âg enwadau? Gellid meddwl wrth glywed yr hen Arminiaid Undodaidd, a'r Undodiaid ar eu hol, yn traethu eu barn am y Calfiniaid, nad oedd dim o'r fath giwed ragrithiol a hwy mewn bod, a chyfrifent hwy yn anaddas i fod yn eu cymdeithas. Mae y geiriau, "Hil Galfin drablin dryblwr" wedi bod yn chwedl-air teuluaidd ganddynt. A chanodd David Lloyd, Brynllefrith, fel hyn:—

"Hen Galfin ac Arminiws
Gyrais draw goris y drws."

Yr ydym yn deall mai am y Calfiniaid yn mhlith y Presbyteriaid, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr, y canwyd y geiriau hyn; ond wedi i'r Calfiniaid Methodistaidd ddyfod yn adnabyddus i'r wlad yn gyffredin, atynt hwy gan mwyaf eu trowyd. Yr hyn ydoedd y Methodistiaid yn cael eu cyhuddo o hono trwy y blynyddoedd gan yr Undodiaid, oedd *rhagrith a thwyll:* rhagrith mewn ymddangosiad, a thwyll mewn masnach. A digon tebyg eu bod wedi cael lle i'w beio lawer gwaith, ac y cant le i feio llawer o honynt etto. Ac y mae y Methodistiaid yn gwybod hyn er eu gofid. Os awn i farnu yn ol tôn ein Cyfarfodydd Misol a'n cyfarfodydd eglwysig cyffredin, gan eu bod yn dangos eu drygedd mor aml, ac yn cynghori yn eu herbyn. Ond ai hwy yn unig sydd yn euog o hyn? Ai y Corff Methodistaidd yn unig sydd yn ddarostyngedig i'r heintiau niweidiol o dwyll a rhagrith? Dichon fod rhyw bethau yn ddarostyngedig i'r Annibynwyr, &c., y rhai y gellir gofyn am danynt, a yw y Methodistiaid hefyd ddim yn euog o'r un pethau? Ond nid awn ar eu hol yn bresenol, ond yn unig mewn modd cyffredinol wrth wneyd rhai sylwadau ar Undodiaid y darn hwn.

[*Ymddengys gweddill yr ysgrif hon, yn nghyda rhai sylwadau ar y cyfryw, yn ein rhifyn nesaf.*]

GWLEIDIADAETH.

Ymddengys fel pe byddai trigolion Ewrop yn chwennych taflu ymaith, pe gwyddent pa fodd, yr hen ddull breninol o lywodraeth, a gosod i fyny yn ei le Weriniaeth. Maent fel plant wedi myned yn rhy lawn i'w hen wisg, ac yn gofyn rhai cyfartalach i'w maintioli. Amryw ddilladyddion ydynt wedi cynnyg o bryd i bryd i wneyd y fath ddillad, ond rywfodd neu gilydd maent hyd yma wedi methu. Dyma fel y mae yn awr yn Ffrainc, ac wedi bod am yn agos i 80 mlynedd. Mae anesmwythder mawr yn Nhy y Cyffredin yn Versailles. Methant gytuno yn nghylch y *Constitution*. Ceir rhai yn ffafriol i freniniaeth, eraill am adferu yr ymerodraeth; cytuna y ddwy blaid yma i wrthwynebu pob math o *Gonstitution* fyddo yn ffafriol i Weriniaeth. Mae y Ty wedi appwyntio pwyllgor o 30 i ffurfio *Constitution*, ond ymddengys fod y Llywydd, M. Thiers, a hwythau yn croesdynu. Anhawdd gwybod beth fydd y diwedd.

Fe gofir i'r Cadlywydd Prim, oddeutu dwy flynedd yn ol, osod un o feibion brenin Itali ar orsedd Yspaen. Nid oes dim dadl nad gweithred ffol ydoedd, ac iddi gosti i Prim ei fywyd. Gallesid rhagweled na pharasai y drefn ddim yn hir, oblegyd mae y Gwerinwyr yn Yspaen yn gryf a dylanwadol. Yn awr mae y brenin wedi gorfod rhoddi i fyny yr orsedd, a dychwelyd adref. Nid oedd dim yn bossibl iddo lywodraethu ar y 'Spaniaid. Yr oedd y croesbleidiau yn y Cortes (*Senedd*) yn rhy gryf a gwrthryfelgar i allu cario dim yn mlaen yn weddaidd ac mewn trefn. Y canlyniad fu i'r brenin weled mai gwell oedd iddo ymadael, a gadael Yspaen i'r Yspaniaid. Nid oes dim dadl na wnaeth yn gall. Mae Gweriniaeth yn awr wedi ei hadferu yn ol,

ond dros ba hyd y parha, nid oes neb a wyr. Mae y wlad yn lled annhrefnus, a'r offeiriaid, yn wastad yn elynol i ryddid, yn gwneuthur a allont i'w dymchwelyd. Rhoddodd y brenin ei orsedd i fyny ar yr 11eg o'r mis diweddaf, ac etholodd y Cortes y Weinyddiaeth Werinol dranoeth. Mae yr aelodau oll yn werinwyr trwyadl a goleuedig—pigion y Cortes, yn ddiau; ond p'un a lwyddant i ennill ymddiried y wlad sydd beth arall.

Y SENEDD BRYDEINIG.

Y pummed eisteddiad presenol, dan lywyddiaeth Mr. Gladstone, a agorwyd dydd Iau, y 6ed o'r mis diweddaf, gan yr Arglwydd Ganghellydd, yr hwn a ddarllenodd araeth y Frenines, neu yn hytrach, araeth y Prif Weinidog. Crybwyllir ynddi am lawer o bethau, megys y Caethwasiaeth yn y Môr Tawel; Cynnen yr Alabama, yr hon a gostia i'r wlad dair miliwn o bunau, a hyny yn unig o herwydd fod ein llywodraethwyr ar y pryd yn ochri gyda'r De' yn Rhyfel Cartrefol yr Unol Daleithiau. Crybwyllir amryw bethau ereill o nemawr budd i'w hadrodd yn awr. Mae yn yr araeth dri neu bedwar o addewidion. Un yw diwygio Prif-Ysgol yr Iwerddon, gyda bwriad i wellhau addysgiaeth. Yn ganlynol, dygodd Mr. Gladstone i'r perwyl, Ysgrif o flaen y Ty, ar y 13eg o'r mis diweddaf, mewn araeth hir a galluog. Rhoddodd foddlonrwydd cyffredin, a bydd yr Ysgrif yn debyg o basio trwy y ddau Dy. Addewir hefyd yn yr araeth o'r orsedd, i wneyd rhyw welliantau yn Ysgrif Addysg 1870.

YR EGLWYS SEFYDLEDIG.

Mae Mr. Miall wedi rhoddi rhybudd i'r Ty, ei fod yn bwriadu dwyn y pwnc o ddadgyssylltiad o flaen y Ty yn gynnar yn yr eisteddiad presenol. Ni fydd dim esmwythder mwy i'r "hen fam" nes y byddo hi a'i meibion wedi cael eu gosod, gyda golwg ar y llywodraeth, ar yr un esgynlawr â'r Anghydffurfwyr. Traws-arglwyddiaeth sefydledig yw eglwys sefydledig. Nis gall rhyddid gwladol na chrefyddol fod yn berffaith yn un wlad lle y byddo eglwys o'r fath yn cael ei dal i fyny gan y *state*. Nid oes dim hefyd a all fod yn fwy niweidiol i wir grefydd, ac i daeniad Cristionogaeth, nag offeiriadaeth uchafol. Mae y fath eglwys fel maen melin ar eu gwddf. Mae hefyd yn llygru cydwybodau dynion, yn achos amrafaelion crefyddol yn mhob cymmydogaeth, ac yn cynhyrfu ysbryd annymunol rhwng dynion a'u gilydd. Ymaith a'r fath eglwys, fel un sefydledig, a thröer ei chyfoeth—yr hyn o hono a berthyn i'r wlad—i wasanaeth y wlad yn gyffredin. Gellir canfod yn eglur ar ei mur law Rhagluniaeth yn ysgrifenu,—"*Mene, Mene, Tekel upharsin.*

CATO.

MAE naw o bob deg o offeiriaid y dydd presenol yn hyddysg yn llenyddiaeth Groeg, Rhufain, a Judea; ond am wybodaeth o ddeddfau anian, nid ydynt ond "*noble savages*"—dim yn rhagor.—*Tyndall.*

Y PREGETHWR METHODISTAIDD CYNTEFIG YN Y LLYS.

Yn nyddiau boreu y Methodistiaid Cyntefig, cafodd cymmeriad hynod ddrwg ei droi at grefydd trwy offerynoliaeth hen genhadwr ffyddlon a llawn o dân crefyddol. Yn ol fel y dygwyddai yn gyffredin iawn y dyddiau hyny, dechreuodd y dysgybl newydd bregethu yn fuan iawn; ac os nad oedd ei bregethiad yn tueddu rhyw lawer i oleuo y deall, caffai ddylanwad annghyffredin ar y teimlad. Ar un amgylchiad, yr oedd torf fawr o bobl wedi ymgasglu at eu gilydd ar fin y ffordd fawr, a gafaelodd y pregethwr yma yn y cyfleusdra i bregethu yr Iesu iddi. Daeth swyddog pur ymyrgar yn mlaen, a chymmerodd ein cyfaill i garchar.

Taenwyd y newydd gyda buander mellten fod yr hen Domos wedi cael ei gymmeryd i fyny am bregethu yr Efengyl. Pe dywedasid ei fod wedi cael ei gymmeryd i fyny am ladrad, neu am ymladd ac anafu un o breswylwyr y pentref oedd yn byw ynddo, ni fuasai neb yn synu dim oblegyd y newydd; ond yr oedd y ffaith ei fod wedi cael ei gymmeryd yn gaeth oblegyd pregethu Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, yn gosod lliw hollol wahanol ar y peth.

Boreu dranoeth, yr oedd y llys yn orlawn o bobl i glywed y *trial*. Darllenwyd y cyhuddiad drosodd, a gofynwyd i'r carcharor a oedd ganddo rhywbeth i ddweyd mewn atebiad.

Yn awr, yr oedd y dyn yma wedi bod gymmifer o weithiau, o bryd i bryd, yn y *dock*, fel nad oedd ddim yn teimlo yn annghyssurus yno o gwbl: ymddangosai yn hollol ddigyffro, ac wedi plethu ei freichiau, yn araf iawn anerchodd yr ynadon i'r perwyl yma,—

"Wel, foneddigion, a ydych chwi yn golygu busnes?"

"Busnes! busnes! ydym, wrth gwrs."

"Wel, foneddigion, gwelwch yn dda fy esgusodi; ond os ydych yn golygu busnes, caniatewch i mi ddywedyd fod cyfnewidiad pwysig iawn wedi cael ei effeithio ar fy meddwl i yn ddiweddar, ac nad wyf byth yn dechreu busnes yn awr heb yn gyntaf peth weddio parth y cyfryw, ac os gwelwch fod yn dda, ni gawn weddio."

Ni arosodd i gael gwybod pa un a buasent yn foddlon neu peidio, ond tywalltodd y creadur newydd yma ei enaid yn y modd mwyaf difrifol gerbron Duw mewn gweddi.

Cafodd pawb yn y llys eu heffeithio yn fawr, a thywalltodd rhai o honynt ddagrau edifeirwch; ond gweddiai yn hytrach yn rhy hir; ac er fod y weddi yn un rhagorol dda, meddyliai y prif ynad ei bod yn gyflawn bryd iddo ei dwyn i ben, a dywedai mewn llais gwanaidd:—"Fe wnaiff hynyna y tro,—perwch iddo dewi."

Ysgydwodd yr heddgeidwad lawes ein cyfaill, a dywedodd wrtho:—"Stopwch;" ond parhau i weddio wnai efe o hyd. Gan dynu yn fwy nerthol nâg o'r blaen wrth ei lawes, dywedai wrtho:—"Stopwch;" ond parhau i weddio wnai ef gydag yni a gwres cynnyddol.

Gwelodd un o'r ynadon un o'r pregethwyr yn nghorff y llys, a chan ei alw wrth ei enw, dywedodd wrtho:—"Mr. A., deuwch chwi yma, a

pherwch iddo dewi." Ond yr oedd yr hen frawd anwyl yma yn mwynhau y cwrdd gweddi hynod hwn yn rhy dda i gael ei gymhell i'w ddwyn i derfyniad; ac oblegyd hyny, dywedai yn ddigon uchel i bawb yn y llys ei glywed,—"Na, na, yr ydych chwi wedi gadael iddo ddechreu, ac nis gallaf fi beri iddo orphen."

Modd bynag, fe dynodd y carcharor ei weddi i ben, ac yna safodd i fyny drachefn yn y *dock*, ac a blethodd ei freichiau, ac a ddywedodd mewn iaith syml, ac mewn tôn ostyngedig:—

"Foneddigion, os gwelwch yn dda, yr wyf fi yn hollol barod i fusnes yn awr."

Gorchymmynwyd i'r gweddiwr i fyned i ystafell o'r naill ochr cyhyd ag y buasai ei fater dan ystyriaeth yr ynadon.

Dywedodd un o honynt, sef yr hwn oedd wedi cael ei gyffroi i'r fath fodd ag i dywallt dagrau:—"Y mae y dyn hwn wedi bod yma laweroedd o weithiau o'r blaen, ond nid erioed dan y fath amgylchiad; ac os yw hyn yn enghraifft o'r gwaith sydd yn cael ei effeithio trwy lafur y Methodistiaid Cyntefig, yr wyf yn dymuno pob llwyddiant iddynt yn mhob man yr elont."

Nid hir y buont cyn dyfod i'r penderfyniad nad oedd y gweddiwr da hwn ddim wedi torri un gyfraith, a chyda llawenydd y gollyngasant ef yn rhydd.

"Wel, foneddigion," meddai swyddog yn y llys, "a gawn ni ei alw i mewn yma i ddweyd wrtho ei fod yn rhydd?"

"Beth! beth! ei alw i mewn? Na dim byth, onite ni a'i cawn ar ei liniau yn gweddio etto.'

"Gadewch iddo fyned allan trwy ddrws y naill ochr, ond dywedwch wrtho nad ydym ni yn cael un bai ynddo ef, a'i fod at ei gyflawn ryddid i gario ei waith da yn y blaen."

C. A.

Llwyddiant.—Y mae prif-ffordd fawr hawddfyd dynol yn gorwedd ar hyd hen brif-ffordd ymdrech ddiysgog at weithredu yn dda. A'r rhai hyny ydynt fwyaf dyfal-barhaol, y rhai ydynt yn gweithio yn yr ysbryd cywiraf, a fyddant yn ddieithriad yn fwyaf llwyddianus. Y mae llwyddiant yn troedio ar sodlau pob ymdrech at wneuthur da. —*Smiles.*

Priodas.—Y mae gan briodas lawer o boenau, ond nid oes gan weddwdod ddim pleserau, ac nid yw priodas yn fynych yn anhapus, ond megys y mae bywyd yn anhapus; ac y mae gan y rhan amlaf o'r rhai hyny a achwynant ar flinderau priodasol, gymmaint o foddhâd ag y dichonasai eu natur ei ganiatau, neu eu hymddygiad ei sicrhau iddynt yn unrhyw gyflwr arall.—*Dr. Johnson.*

Methiantau.—Ni ddylai dyn ddigaloni gyda methiantau,—maent yn fynych yn llawer gwell i'r cfrydydd nâ llwyddiant. Yr hwn a aiff i'r ysgol at ei gymsyniadau, a gaiff bob amser fod ganddo ysgol-feistr da, ac ni fydd yn debyg o syrthio i ddiogi nac i falchder.

Congl yr Esboniwr.

Luc xviii. 8.—"*Yr wyf yn dywedyd i chwi y dial Efe hwynt ar frys. Eithr Mab y Dyn pan ddel, a gaiff Efe ffydd ar y ddaear?*"—Hyny yw, Mae dial Duw ar ddrygioni trigolion Jerusalem a Judea yn sicr o dd'od ar frys; ond y pwnc yw, a fydd yn eu plith rai y pryd hwnw yn dal at eu proffes o'r Efengyl? Diwedd dammeg y barnwr annghyfiawn a'r weddw yw yr adnod hon. Dyben yr Iesu yw dangos fod taerineb diflin y weddw hono yn siampl i'w ddysgyblion a'i ganlynwyr. Mae yr Iesu yn eu hanog i beidio diffygio i alw ar Dduw yn eu dyoddefaint a'u caledi. Nid oedd am iddynt gasglu ei fod yn ddifater yn eu cylch o herwydd ei fod megys yn oedi gwrando arnynt, oblegyd byddai amser eu rhyddhad yn sicr o dd'od, a hyny yn fuan—efallai pan fyddent leiaf yn ei ddysgwyl. Peidient myned i wanobaith; barnwr cyfiawn yw Duw. Os y gwnaeth y barnwr, o herwydd taerineb y weddw, wrando ar ei chais yn y diwedd, pa faint mwy parod mae Duw i amddiffyn ei weision sydd yn galw arno nos a dydd? "Er hyny," fel pe y dywedasai yr Iesu, "mae achos i ofni y diffygia ffydd llaweroedd cyn del y waredigaeth, ac y rhoddant i fyny eu proffes o'r Efengyl, o herwydd yr erledigaeth fydd arnynt yn y cyfamser, ac na chaf yn Judea nemawr yn dal at y ffydd pan ddel y dinystr sydd ar gyfer ei thrigolion."—Pan ddel yr amser, a gaiff Mab y Dyn rai yn proffesu yr Efengyl, neu ynte, a fyddant oll wedi ei gwadu? Dyma dybiwn ni yw meddwl yr adnod hon, a dyben y ddammeg. Mae yn anog ei ddysgyblion i ddal at y ffydd yn ngwyneb pob gwrthwynebiadau a chaledi. Wrth yr "etholedigion," mae i ni ddeall y Cristionogion; nid yn yr ystyr drawsylweddol, eu bod wedi eu hethol er trag'wyddoldeb, ond o herwydd eu bod trwy eu ffydd yn Nghrist, a'u hymddygiad teilwng o hono, wedi "gwneuthur eu hetholedigaeth." "Mab y Dyn" yw Iesu Grist, yr hwn a eilw ei hun felly o herwydd ei fod, fel eraill o ddynolryw, yn agored i'w gwendidau. Mae un wers, a hono yn un bwysfawr, allwn dynu oddiwrth y ddammeg hon, sef, peidio digaloni a myned i wanobaith o herwydd nad yw achos y Gwirionedd yn llwyddo fel y dymunem, ond i ddal yn ddiysgog at y ffydd, a gweddio a gweithio yn ddiflino drosti, gan gredu y gwna Duw lwyddo y gwirionedd yn ei amser priodol ei hun.

Philo.

Mae Dr. Wolfe o Glasgow wedi llwyddo i wneuthur peth tra rhyfedd. Yr oedd dyn wedi colli ei olwg trwy losgiad. Darfu i Dr. Wolfe gymmeryd rhan o lygad cwningen a'i ddodi yn lle y rhan o'r llygad oedd wedi llosgi; a'r canlyniad hapus yw, fod y dyn yn awr yn gallu gweled yn weddol.

Marwgofion.

Hydref 10, 1872, bu farw Mrs. Elizabeth Jones, priod Mr. Samuel Jones, gynt Ballarat House, Heol Harriet, Aberdar, yn awr Tarnagulla, Victoria, Awstralia, yn 35 oed. Dyoddefodd gystudd hir, ac yn nghanol ei defnyddioldeb, daeth gwŷs i'w chymmeryd ymaith oddiwrth ei gwaith at ei gwobr. Gadawodd ar ei hol wr ac un mab bychan i alaru ar ol mam dyner a phriod serchog. Bydded iddynt nawdd Duw a'i dangnef. Bu yn aelod yn yr Hendycwrdd, Aberdar, yn hir cyn ei hymfudiad. Heddwch i'w llwch.

Rhagfyr 2, 1872, yn 56 oed, bu farw Catherine Howells, Royal Oak, Wig, ger Penybont-ar-Ogwr. O gylch wythnos cyn ei marwolaeth, ac er mawr alar i'w phriod a'i phlant a'i pherthynasau, yn gystal a lluaws o gydnabod, tarawyd hi â'r parlys, ac ni lefarodd un gair, ac mor belled ag yr ydym ni yn deall, ni fu yn deimladwy o'i bodolaeth wedi hyny. Tueddir ni, yn ngwyneb amgylchiadau o'r fath, i ddweyd fod ffyrdd Rhagluniaeth yn dywyll ac anesboniadwy i ni; ond gweddus yw ymgyssuro dan yr ystyriaeth mai ffyrdd y Tad nefol sydd oreu. Na alarer megys heb obaith, ond yn hytrach ymdaweler, dan yr ystyriaeth nad yw hi ddim wedi myned ar goll. Ca'r marwol hwn etto wisgo anfarwoldeb. Mynychai, fel ei rhieni o'i blaen, yr addoliad cyhoeddus yn hen gapel y Wig mor fynych ag y gallai. Yr Iau canlynol, daeth tyrfa luosog yn nghyd i'w hangladd, yn yr hon y gweinyddodd Mr. Titus Lloyd, Porthcawl, a'r Parch. Titus Lloyd, gweinidog y lle. Claddwyd hi yn mynwent yr hen gapel.

Ionawr 5, yn 88 oed, bu farw John Howells, Nottais, amaethwr. Dyoddefodd yr ymadawedig gystudd maith, ac er wedi cael ei amddifadu i raddau helaeth o'i gof, &c., arferai gyflawnu hyd y diwedd y ddyledswydd ag oedd wedi hen arfer â hi bob boreu a hwyr, sef ymgrymu o flaen ei Greawdwr. Bu yn aelod ffyddlon yn y Nottais am flynyddau meithion, gan gydgario'r groes â'r rhai sydd ar ei ol a llawer o'r rhai sydd wedi croesi'r afon o'i flaen, a chredwn yn hyderus y cyferfydd â hwynt etto mewn gwlad well yr ochr draw. Yr Iau canlynol, cyn cael ei gladdu yn mynwent y plwyf yn y Drefnewydd, pregethodd y Parch. Titus Lloyd, ei hen weinidog, yn y ty.

Ionawr 11, 1873, Mrs. Jemima Jones, priod Mr. Morgan Jones, Ffinnant Cottage, ger Llanwnen, Ceredigion. Merch ydoedd i'r diweddar Mr. Anthony Davies, Coedmawrfawr. Hunodd yn mhen ychydig ddyddiau ar ol geni merch, yn 40 o flwyddi oed, ar ol cystudd poenus ac arteithiol.

Anhyfryd siomiant a phob loes,
Pob croes ac erchyll deimlad,
Pob poenau gawn, y'nt yn ddiwâd
Yn dyner Dadol gariad;
A chan nad oes trwy'r ddae'r a'r ne'
A'i lluddias E'n ei amcan,
Beth bynag rydd i ddynolryw,
Daioni yw y cyfan. CYNONFAB.

Ionawr 12, 1873, Mrs. Margaret Jones, serchog briod Mr. David Jones, Ddeunant, Pencareg, Sir Gaerfyrddin, ar ol nychdod blin dros amryw fisoedd. Hunodd yn dawel a thangnefeddus yn yr Iesu, yn 46 oed. Ymunodd â'r Annibynwyr pan oddeutu deg oed, a pharhaodd yn ffyddlawn hyd y diwedd. Bydded i'w hanwyl briod alaru yn gymhedrol, fel un a gobaith bywiol ganddo.

Er dyddimu rhan o'th gyssur,
Cariad yr Anfeidrol yw;
Llygad ffydd, tu hŵnt i natur,
Wel dy briod etto'n fyw.—CYNONFAB.

Nos Sul, y 12fed o Ionawr diweddaf, yn 42 oed, bu farw Thomas Evans, Alltyrodyn Arms, Llandyssil. Claddwyd ef y Mercher canlynol yn Pantydefaid. Ar yr achlysur, pregethodd y Parch. T. Thomas. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r dynion caredicaf trwy yr holl gymmydogaeth.

Ionawr 18, 1873, Mrs. Elizabeth Davies, priod Mr. David Davies, Frongoch, Cwmtwrch, Cayo, a merch ieuangaf Mr. Simon Parry, Peneisin-grug, Cellan, yn mhen ychydig ddiwrnodau ar ol genedigaeth plentyn o enyniad yr ymysgaroedd, yn 37 o flwyddi oed. Cymmerodd "Iau yr Iesu" arni er ys blynyddoedd. Claddwyd hi yn nghladdfa Capel yr Erw, Cellan. Bydded i'r priod a'r hen dad oedranus, yn nghyd a'i hunig frawd a'r chwiorydd oll ymdawelu, gan gredu fod y Tad perffaith ac Oll-ddaionus yn dwyn pob peth oddiamgylch yn y modd goreu.—CYNONFAB.

Ionawr 21, yn 68 oed, bu farw David Thomas, Nottais, amaethwr. Amrywiol yw y ffyrdd yr ydym yn cael ein galw, y naill ar ol y llall, i'r dystaw fedd. Wrth ddychwelyd o anglaad y rhagddywededig John Howells, cafodd David Thomas ei daro â'r parlys, ac ni ddaeth gair dros ei enau, ac ni chymmerodd ond ychydig ymborth, ac nid oes lle i gredu iddo wneyd ond ychydig sylw o neb wedi hyny. Mae wedi marw, ond nid ydym heb obaith o gael cwrdd ag ef etto mewn gwlad well. Yr oedd yn feddianol ar gynneddfau meddyliol cryf. Medrai roddi rheswm am y gobaith oedd ynddo. Mynych y siaradai am ragoriaeth y syniadau Undodaidd ar y rhai gwrthwynebol. Bu yn llwyddianus iawn fel amaethwr. Cymmerai ddyddordeb anarferol mewn cadw anifeiliaid o'r fath oreu, a disylw iawn fuasai y dyn na sylwai gyda chymmeradwyaeth ar y cyfryw. Bu yn aelod ffyddlon am lawer o flynyddau yn y Nottais, ac yr oedd bob amser yn ewyllysgar i wneyd a allai dros yr achos trwy gymmeryd rhan gyhoeddus yn y gwasanaeth, a chyfranu o'i eiddo atto, a chyda galar y dywedwn y gwelir ei eisiau yn dost yno. Gadawodd amryw o blant, rhai yn mynychu yr un lle o addoliad a'u tad a'u mam (yr hon sydd gyda'r llu yn mhridd y llan er ys blynyddau maith bellach), ereill yn myned i fan arall. Yn ngwyneb colli eu tad, bydded iddynt nerthu yn y gras sydd yn Nghrist Iesu, a gosod eu hymddiried yn y Duw byw. Gweinyddwyd yn ei angladd gan y Parch. Titus Lloyd, yr hwn a bregethodd oddiwrth 1 Petr iii. 4.

Ionawr 22, bu farw Mrs. Ellen Jones, priod Mr. Nicholas Jones, Heolyfelin, Aberdar, yn 46 oed. Ni chafodd ond cystudd byr iawn, a braidd yn annysgwyliadwy daeth cenad Ion i'w chymmeryd ymaith i'r byd mawr tragywyddol, lle ni ddywed un o'i phreswylwyr, "Claf ydwyf." Yr oedd yn berchen ar alluoedd meddyliol cryfion, a chof annghyffredin a bywiog, fel yr oedd yn barod i roddi ateb parod am y gobaith oedd ynddi. Bu yn aelod yn yr Hendycwrdd am amser maith, a chymmerai ran yn mhob cyfarfod o'r eiddynt, a diau ei bod i fyny i'w phroffes. Teimlir hiraeth a cholled ar ei hol. Y Llun canlynol, hebryngwyd hi i "dy ei hir gartref," yn mynwent hen eglwys y plwyf. Ar y ffordd, awd i'r Hendycwrdd, lle y cafwyd pregeth dda gan y gweinidog newydd—y Parch. W. James, B.A., oddiwrth Job xiii. 17.—EIDDIL CYNON.

Chwefror 10, yn y Wig, ger Penybont-ar-Ogwr, Evan David, yn 77 oed. Dywed rhai ei fod yn haws gwaith i ddyn tlawd fod yn grefyddol nag un cyfoethog; nad yw y temtasiynau mor gryf iddo i ollwng dros gof gynghor y Goruchaf. Dichon fod gwir yn hynyna, ond gan nad beth am hyny, yr oedd Evan David yn ddyn da, ac er heb nemawr o bethau y byd hwn, etto yn gyfoethog o ras. Yr oedd yn ddyn hynod dawel a boddlon i'r hyn oedd ganddo. Dyoddefodd gystudd maith yn amyneddgar, a bu farw yn dawel mewn gwir ddyogel obaith. Yr oedd yn Undodwr trwyadl, a mynych y siaradai am Undod Duw, ac am ei dadoldeb. Y geiriau olaf ddaeth dros ei enau yn nghlyw ei wraig a'i blant oeddynt, "Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd," &c. Y Mercher canlynol, claddwyd ef yn mynwent hen

gapel y Wig, lle y bu yn aelod ffyddlon am lawer iawn o flynyddau. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Titus Lloyd, yr hwn sydd wedi cael ei amddifadu yn ddiweddar o lawer o'i hen gydfilwyr i Iesu Grist.

Boreu dydd Mercher, y 19eg o Chwefror diweddaf, yn 32 oed, wedi hir flynyddau o gystudd, bu farw John Parry, saer, Tregroes, Llandyssil. Hebryngwyd ef i'w fedd yn nghladdfa'r Undodiaid yn Pantydefaid y dydd Gwener canlynol. Cyflawnwyd y gwasanaeth angladdol gan y Parch. T. Thomas. Yr oedd yr ymadawedig yn grefftwr na cheid yn aml ei fath, ac yn ddyn hollol ddiniwed.

Gohebiaethau.

Mr. Golygydd,—

Fel un wedi bod yn ddarllenwr cysson o'r *Ymofynydd* er ys mwy nâg ugain mlynedd, yr oedd yn ddrwg iawn genyf glywed fod y Parch. D. L. Evans wedi cael ei orfodi, oblegyd anhwylder, i roddi i fyny ei swydd o fod yn Olygydd, ac yr oeddwn yn ofni na fuasai neb arall yn cymmeryd i fyny y gwaith; ond pan ddaeth y *circular* i fy llaw yn niwedd Rhagfyr, cefais fy lloni yn fawr wrth gael ar ddeall fod y cyhoeddiad i gael byw etto. Yr wyf yn gobeithio y cewch gefnogaeth i hwylysu y gwaith yn mlaen. Diau fod y gwaith yn gofyn llawer o amser a llafur; ond os bydd i'r gweinidogion, ac ereill sydd yn alluog, weithredu yn ol fel y maent yn cael eu taer gymhell yn y *circular*, fe fydd y baich yn llawer mwy ysgafn i chwi. Nid wyf fi wedi arfer ysgrifenu llawer i'r wasg, ond yr wyf yn addaw gwneuthur fy ngoreu o hyn allan i anfon ychydig linellau yn awr ac yn y man.

Pan byddo aelodau unrhyw gynnulleidfa (bydded y gynnulleidfa hono yn fawr neu fach) yn gysglyd, yn glaiar, ac yn y ddarfodedigaeth ysprydol, nid oes dim llewyrch ar yr achos, ac nid hir y bydd cyn myned i'r dim; ond pan y byddo pob aelod yn gwneuthur ei ran—yn gwneuthur yr oll a allo i'w hadfywio a'i gwella, odid na fydd yr achos yn myned yn mlaen yn hwylus, ac mor ddymunol ag y dymuna ei ewyllyswyr goreu; felly yn union gyda golwg ar gyhoeddiad o fath yr *Ymofynydd*.

Ond os bydd y sawl fyddo yn proffesu fod ganddynt olwg fawr arno, ac yn alluog i ysgrifenu, yn gomedd gwneuthur felly, nid oes yr un gobaith y bydd byw yn hir; eithr os bydd iddynt wneuthur eu goreu, (a phan y mae dynion yn gwneuthur eu goreu, hwy a wnant lawer,) nid oes yr un amheuaeth na fydd iddo lwyddo. Diamheu fod rhai ysgrifenwyr galluog yn ein corff yn Nghymru, a gobeithiwn y bydd i'r cyfryw ddyfod allan i'r maes fel un gwr.

Dynion dewr da yn eu dydd,
O amryw fanau i'r *Ymofynydd*.

Yna ni bydd achos gan y Golygydd i gwyno oblegyd cysgadrwydd ei gyfeillion.

Da iawn genyf gael ar ddeall fod cylchrediad yr *Ymofynydd* mor dda pan orfodwyd Mr. Evans i'w roddi i fyny; ac yr wyf yn gobeithio na fydd yn llai dan eich golygiaeth chwi. Diau y gellid helaethu ei gylchrediad ond i'r darllenwyr wneuthur eu goreu i'w ddwyn i sylw eu cymmydogion, a'u dirgymhell i'w dderbyn. Wrth wneuthur felly, fe hwylusir yr egwyddorion a'r gwirioneddau hyny ag oeddynt mor anwyl yn ngolwg rhai o'n hen deidiau —y gwirioneddau hyny ag wyf fi yn credu sydd yn dwyn argraff y Nef arnynt.

Gyda dymuno pob llwyddiant i'r *Ymofynydd* a'i Olygydd,

Ydwyf, yr eiddoch yn ffyddlon,

Thomas Thomas.

Cefnpennar Ucha', Aberdar.

TRYSORFA Y GWEDDWON.

Mae'r ystyriaeth fod y Gymdeithas uchod er ei chychwyniad wedi danfon i weddwon ac amddifaid gweinidogion y tri enwad (sef y Presbyteriaid neu Undodiaid fel y galwant eu hunain, yr Annibynwyr,

a'r Bedyddwyr) dros £70,000, ac yn ddiweddarach wedi cyfnewid ei rheolau er cyfarfod ag amgylchiadau gweddwon Cymru yn well, gyda'r ystyriaeth fod pump ar hugain wedi *applyo* at y 90 o'r blaen, yn galw am ymdrech gyffredinol ac egniol eleni.

Gwnaeth boneddigion a boneddigesau y Presbyteriaid eu rhan yn helaeth yn y cychwyn yn mhlaid y Gymdeithas, ac y mae ychydig yn ddiweddar wedi gwneyd yn dda yn Nghymru; ond rhywfodd, nid oes ond ychydig wedi dyfod i mewn eleni.

Wele, wele, gyda fy mod yn myned i gadw stwr, dyma un foneddiges ieuanc o Aberdar a charden galonog i mewn, sef £1 10s., wedi eu casglu gan Miss Jane Llewelyn. Da iawn yn wir. Duw a'i bendithio, a thaled yr Arglwydd iddi hi a'r cyfranwyr yn ddauddyblyg.

A gawn ni ddymuno yn y modd mwyaf taer a gostyngedig ar i rywun yn mhob cynnulleidfa wneuthur yr un modd, a danfon y cwbl i mi erbyn Mawrth 20fed. Gan y bydd yr *Ymofynydd* allan ddechreu Mawrth, bydd pythefnos i weithio. Odid i Miss Llewelyn fod lawer yn hwy nâ hyny wrth ei gwaith clodfawr, am yr hyn ni bydd heb dâl gan Ragluniaeth ddoeth a daionus.

Da genyf fyw yr *Ymofynydd*. Danfoner un i mi yn fisol.

Wyf, &c.,
LEWIS EVANS,
Goruchwyliwr T. G.

Red House, Newport, Mon.

BETH DDYWEDIR AM DANOM?

SYR,—Ymddangosodd a ganlyn yn y Cylchgrawn Eglwysig *Y Dywysogaeth* am Chwef. 1af, 1873 :— W.

YR YMOFYNYDD.—Mae'r cyhoeddiad Sosinaidd a adnabyddid wrth yr enw uchod wedi tewi. Faint o effaith a chyfnewidiad a achosa y dygwyddiad, os dygwyddiad hefyd, nid ydym etto yn gwybod. Bu yn nychu am beth amser, felly nid teg dweyd mai dygwyddiad annysgwyliadwy oedd ei farwolaeth. Bu farw pan oedd y flwyddyn 1872 yn tynu ei thraed i farw ar derfyngylch amser. Do, a gellir dweyd bellach am yr *Ymofynydd*, efe a fu farw. Dywedir wrthym fod y Sosiniaid fel dosparth yn ddynion haelionus a brawdol; ond os cymmerwn fel maen prawf yr hen air, "Y pren a adnabyddir wrth ei ffrwyth," gallwn gyhoeddi yn uchel a chroch fod gadael yr hen *Ymofynydd* i drengu yn weithred anfrawdol ac *anti*-Sosiniaidd. Pe buasent mor haelionus a brawdol ag y dywedir eu bod, buasent wedi gofalu mewn pryd am gylla'r *Ymofynydd*. Heddwch i'w lwch, ac na fydded iddo adgyfodi etto i aflonyddu neb o ddeiliaid teyrngarol Victoria. Teg yw dweyd gair am yr *Ymofynydd*, gan mai efe oedd y cyhoeddiad misol mwyaf ei dwrw yn y parthau hyn.

Syr,—Wrth ddarllen hen rifyn o *Seren Gomer*, 43 ml. oed, gwelais yr ychydig linellau a ganlyn o waith Amnon; ac yn ddiweddar gwelais rywun wedi eu hanfon i'r *Gwladgarwr*, fel ei waith ei hun, gydag un gair o wahaniaeth, sef, '*adenydd* llygad gwawr,' yn lle '*godewyn* llygad gwawr :—

BYRDRA EINIOES.

Megys niwl yn ymgymmysgu,
A gwlith anadl gwawr y dydd,
A chysuron a gofidiau
Byrion oriau,'r einioes sydd;
Ac fel tarth yn ffoi o'r dyffryn,
A godewyn llygad gwawr,
Ffoi mae'r einioes, hyd y bywyd
Hwn nid yw ond mynyd awr.—R.J.

Efallai y cewch ryw gyfleu iddynt gael ymddangos yn yr *Ymofynydd*.

Rhymney, D.E
Chw. 10, 1873.

[Pan ddarfu i'r gigfran gynt wyngalchu ei phlu, llwyddodd dros ychydig i dwyllo y colomenod, ac i fyw yn foethus ar eu traul; cyn hir, fodd bynag, bradychodd ei hunan, a chafodd ddyoddef am ei thwyll. Felly cawn ddynion ambell bryd er mwyn clod am ychydig amser, yn ymwthio i sylw y byd mewn plu benthyg; ond o herwydd methu ymddwyn yn addas i'r plu yma, neu rhywbeth cyffelyb, ar fyr yn cael eu dynoethi a'n dwyn i warth a chywilydd. Mae math o briodoldeb yn yr ymadrodd—"Adenydd y wawr," ond nid oes dim priodoldeb na synwyr mewn son am "Adenydd llygaid," ac ni allasai neb ond un cwbl amddifad o enaid barddoniaeth ysgrifenu hyny. Ystyr "godewyn" (go-tywyn) yw adlewyrchiad, *reflection*, tywyniad cyntaf, neu olaf pelydrau'r haul ar unrhyw wrthddrych. Fel hyn y dywed yr hen Ddafis,—"Godewyn haul ar lechwedd bryn, ychydig cyn machludo."—GOL.]

Barddoniaeth.

PENNILLION ANERCHIADOL I EISTEDDFOD YR HEN DY-CWRDD, ABERDAR, IONAWR 1, 1873.

(Buddugol.)

Henffych well, chwi wyr awengar
Heddyw sydd oddeutu bwrdd
Merch Ceridwen fwyn adengar,
Yn Eisteddfod 'r Hen Dy-Cwrdd;
Llwyddiant i chwi a rhwyddineb
I ddadwreiddio dynol wŷn,
Ac i hau mewn gwir ddoethineb,
Hadau cyssur calon dyn.

'Nawr yn ngwanwyn bywiog bywyd
Mae blaen-rodio llwybrau'r iawn,
Heddyw mae gwrteithio'n ddiwyd,
A dadblygu pob rhyw ddawn;
Boed eich gwyl yn faes ystyriaeth,
Ac yn gronfa dysg a dawn,
Fel bo'n fan i blant myfyriaeth
Ymddifyru'n ddedwydd iawn.

Boed yn faelfa hardd gwybodaeth,
Llawn o ddefnydd prydferth, coeth,
A blodeuog lân ddarbodaeth,
At ddilladu'r meddwl noeth;
Ffrydied yma fêl llenoriaeth,—
Llifed hufen cerdd drwy'r côr,
A'r hen awen a'i theloriaeth
Fo'n ddi-yspydd fel y môr.

Peidier *ofni* bod yn *llawen*,
Peidier *ofni* meddwl *rhydd*;
Dyma lannerch gloyw'r awen,
Dyma lys goleuni dydd.
Duw fendithio'ch gwyl a'ch canu,—
Ffrwythau moethus gwlad y gwawl,
Darddont drwyddynt i'n diddanu,
Fel y canom yn ddi-dawl.

Cynonwyson.

Banesion.

Pantydefaid.—Yr 31ain o Ionawr diweddaf, cynnaliodd ysgol Sul Pantydefaid ei gwyl dê flynyddol. Etholwyd i'r gadair Mr. John Evans, Gyfeile. Cafwyd cyfarfod lluosog a llwyddianus dros ben—digon o adrodd a chanu da, a digon o garedigrwydd, ac ychydig yn stor. Yr oedd yn glod a phleser i'r athrawon mewn darllen a chanu fod eu hymdrechion wedi cael eu coroni â chymmaint o lwyddiant. Llwyddiant etto yn y dyfodol.

Capelgroes.—Ysgol Sul Capelgroes, am y tro cyntaf erioed, a gynnaliodd wyl dê ar y 12fed o Chwefror diweddaf. Yr oedd tyrfa luosog wedi ymgynnull nes oedd y capel yn orlawn. Y cadeirydd ar yr achlysur oedd y Parch. John Davies, Alltyplaca, yr hwn ar ddiwedd y cyfarfod a uchelgymmeradwyodd ymddygiad gweddaidd a Christionogol y gwyddfodolion. Yr oedd yr adroddiadau a'r canu yn gampus, ac yn rhoddi boddlonrwydd mawr i bawb. Mae llafur yr athrawon yn haeddu pob canmoliaeth, a gobeithio na bydd iddynt laesu dwylaw yn y dyfodol. Yn y cyflawnder mawr o dê a bara brith, dangosodd gwragedd y gynnulleidfa eu caredigrwydd arferol. Diolch iddynt—*Un oedd yno.*

Alltyplaca.—Chwefror 14eg, cynnaliwyd gwyl dê flynyddol yr ysgol Sul, pryd y cyfranogwyd o'r tê a'r danteithion a ddarparesid gan nifer luosog. Wedi gorphen hyny, dechreuwyd y cyfarfod llenyddol yn fuan wedi pump o'r gloch, a dewiswyd y Parch. W. Thomas, M.A., yn gadeirydd. Yr oedd yr olwg ar y *programme* yn ei atal i wneyd araeth agoriadol faith, ond yr oedd yr hyn a wnaeth yn addas i'r achlysur. Cafwyd anerchiadau prydyddol gan Mr. James Evans, Llanybyther, a Mr. Ben. Evans, Llanwnen. Ar ol hyny adroddwyd a chanwyd dros driugain o ddarnau yn ddoniol iawn gan aelodau ysgol Sul y lle, yn cael eu cynnorthwyo gan gyfeillion o Landyssul, Llanbedr, a Chwrtnewydd. Yn mhen tua phedair awr, torwyd y cyfarfod i fyny cyn gorphen yr oll a fwriadesid ei wneyd, trwy dalu diolchgarwch cynhes i'r cadeirydd am ein hanrhydeddu a'i bresenoldeb, a'n cynnorthwyo a'i wasanaeth parod a gwerthfawr—i'n cyfeillion oeddent wedi bod mor garedig a dyfod o gymmaint pellder o bob lle i'n helpu—i'r boneddigesau am y draul a'r drafferth oeddent wedi gymmeryd gyda'r darpariadau—ac yn ddiweddaf, ond nid y lleiaf, i athrawon yr ysgol Sul a'r ysgol gân am eu llafur cysson drwy y flwyddyn gydag egwyddori'r ieuenctyd yn mhethau'r bywyd tragywyddol. Cyfarfod da—y tuhwnt i'n dysgwyliadau. Yr oedd mwyafrif mawr o'r gwrandawwyr (y rhai oeddent fwy nâ llon'd y capel) yn siarad yn ffafriol iawn am dano. Am i bawb gael eu boddloni, y mae'n beth nas gellir ddysgwyl.—*Hen Aelod or Ysgol.*

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

BWRDD Y GOLYGYDD.

MEWN LLAW:—

A ydyw dynion yn credu yr hyn a broffesant?—Yr aelod didwyll, &c.—Ofergoelion—Englynion Anerchiadol—Tarddiad yr Athrawiaethau Poblogaidd—Y Llyfr Corn—Dyben Bywyd—Nodi Beiau—Rheolau i fyw yn hen—Cyn ac Wedi—Cymedrolder y meddyg goreu—Cadw dy lagad ar fusnes dy hun (Barddoniaeth)—Daliwch ati—Manteision Cymedroldeb—Union in Diversity—Ar Ol (Barddoniaeth)—Mam Teulu—Purdeb Bwriad—Beth yw ei ddyben—Trwynau—Y Golofn Niwl a Thân—Manion—Darllenwch ac Ystyriwch—Gofyniadau gan Nid Pabydd, W.W.,—Englyn gan Caledfryn.

☞ Yr ydys wedi argraffu ychydig dros ben o'r rhifyn hwn, ond nid argraffir ychwaneg nâ'r gofynion o'r rhifynau dylynol; am hyny, anfoner pob archebion ychwanegol o hyn i'r 15fed o'r mis hwn.

☞ Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—

The Editor of "Yr Ymofynydd,"

Mount Pleasant Garden,

Aberdare.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, CARIAD, A GWIRIONEDD.

CYFRES NEWYDD] EBRILL, 1873. [RHIF 2.

CYNNWYSIAD.

Y Crefyddau Ethnig 25
Cyflafareddiad rhwng Teyrnasoedd 29
Taith i'r Aipht a Chanaan 33
Darn Undodaidd Sir Aberteifi (*Parhad*) 35
Sylwadau ar yr Erthygl uchod 40
Union in Diversity 43
Nodiadau Gwleidyddol 44
Priodasau a Marwgofion 45
Darnau Byrion 46
Barddoniaeth 48

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.